



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymatebion

Ymgynghoriad ar Gynllun Cenedlaethol ar gyfer Gofalwyr i Gymru

Dyddiad cyhoeddi: 23 Mawrth 2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Cynnwys Tudalen

1. Cyflwyniad.....	2
2. Methodoleg.....	2
3. Trosolwg o'r ymatebion.....	3
3. Crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad.....	4
5. Datganiad ar y camau nesaf.....	33
6. Rhestr o'r ymatebwyr.....	33

Cyflwyniad

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn diffinio gofalwr fel rhywun sy'n darparu gofal di-dâl i oedolyn neu blentyn anabl.

1. Gall y sawl sy'n derbyn gofal fod yn aelod o'r teulu neu'n ffrind na all, oherwydd salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu ddibyniaeth, ymdopi heb gymorth. Gallai gofalwr fod yn ŵr sy'n gofalu am ei wraig, yn rhiant sy'n gofalu am blentyn a chanddo anghenion gofal a chymorth neu'n blentyn sy'n gofalu am ei riant.
2. Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu ein cyfeiriad arfaethedig o ran strategaeth newydd ar gyfer gofalwyr di-dâl. Rydym am i ofalwyr barhau i fyw â'u bywydau eu hunain ochr yn ochr â'u rôl ofalu waeth beth fo'u hoedran, eu hamgylchiadau neu eu cefndir ac fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, rydym yn bwriadu defnyddio'r cynllun terfynol i nodi sut y byddwn yn gweithio gydag ystod o bartneriaid i gryfhau ein blaenoriaethau cenedlaethol presennol i ofalwyr, er mwyn adlewyrchu pob agwedd ar fywyd gofalwr yn well.
3. Ar ôl paratoi'r ddogfen ymgynghori ychydig cyn y pandemig Covid-19, fe'i diwygiwyd i gynnwys adborth gan ofalwyr, eu cynrychiolwyr, llywodraeth leol, byrddau iechyd ac eraill.
4. Thema graidd y cynllun terfynol yw atal ac ymyrraeth gynnar, gyda'n gweledigaeth i bawb yng Nghymru gael bywydau hirach, iachach a hapusach a pharhau i fod yn egniol, yn annibynnol gan fyw yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y bo modd. Mae hyn yn ddull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar gadw pobl yn iach drwy ragweld anghenion iechyd, atal salwch, a lleihau effeithiau iechyd gwael. Mae'r dull gweithredu hwn wedi dod yn bwysicach yng ngoleuni effaith Covid-19 ar unigolion a chymunedau yng Nghymru.

Methodoleg

5. Rydym wedi ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys gofalwyr unigol, i lywio datblygiad ein cynllun strategol trawslywodraethol ac i adnewyddu ein blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gofalwyr. Buom yn gweithio'n agos gyda Grŵp Cynghori i'r Gweinidog ar Ofalwyr i ddrafftio'r ddogfen ymgynghori ac ymgysylltu â gofalwyr o bob oed drwy'r Grŵp Ymgysylltu â Gofalwyr. Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i hwyluso gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, mae'r grŵp hwn yn sicrhau bod llais y gofalwr mewn sefyllfa dda i lywio gwaith Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr a gwaith datblygu polisi ac ymarfer dilynol.
6. Gohiriwyd lansio'r ddogfen ymgynghori oherwydd y pandemig byd-eang. O ganlyniad i hyn, ychwanegwyd sawl cwestiwn yn gofyn i ymatebwyr roi sylwadau ar effaith y pandemig ar eu bywydau beunyddiol.
7. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru: [Cynllun cenedlaethol i ofalwyr ar wefan Llywodraeth Cymru](#). Dosbarthwyd a rhannwyd gwybodaeth yn eang am sut i ymateb drwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy e-bost. Cynhyrchwyd fersiwn pobl ifanc o'r ymgynghoriad gan Plant yng Nghymru. Cynhyrchwyd fersiwn Hawdd ei Deall o'r ymgynghoriad hefyd.

Trosolwg o'r ymatebion

8. Daeth cyfanswm o 91 o ymatebion i law drwy gyfuniad o ymatebion ar-lein a gyflwynwyd drwy'r wefan, neu drwy e-bost. Anfonodd nifer fach lythyr drwy e-bost gyda phwyntiau penodol yn hytrach na defnyddio'r ffurflen. Ni chafwyd unrhyw ymateb ar ffurf copi papur. Cafwyd 2 ymateb dwyieithog.
9. Cafwyd 50 o ymatebion gan sefydliadau a grwpiau cynrychioliadol, a 41 gan unigolion. Mae Ffigur 1 yn rhoi dadansoddiad o ymatebwyr yr ymgynghoriad yn ôl math. Roedd 35 o ymatebwyr yn dymuno aros yn anhysbys. Mae rhestr lawn o'r ymatebwyr i'w gweld yn Atodiad 1.
10. Oherwydd y pandemig a'r cyfyngiadau angenrheidiol sydd ar waith i ddiogelu iechyd ac atal y feirws Covid 19 rhag lledaenu, ni ellid trefnu digwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb ledled Cymru, fodd bynnag, roedd swyddogion yn cyfathrebu â gofalwyr ac eraill ac yn annog rhanddeiliaid a rhwydweithiau allanol i ymgysylltu â nhw.

Ffigur 1 - ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl y math o ymatebydd

GIG, byrddau iechyd lleol a sefydliadau iechyd	8
Llywodraeth leol	7
Grwpiau sy'n cynrychioli gofalwyr - gan gynnwys sefydliadau cyhoeddus a'r trydydd sector	4
Y sector cyhoeddus gan gynnwys Comisiynwyr, academyddion, cyrff addysg a hyfforddiant	6
Sefydliadau'r trydydd sector neu sefydliadau cymunedol	21
Cyrff ymbarél cynrychioliadol / proffesiynol	3
Unigolion	41
Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol	1

Crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau penodol

11. Roedd nifer o'r cwestiynau yn gofyn i ymatebwyr nodi'n glir a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno, gyda cham gweithredu neu syniad arfaethedig yn yr ymgynghoriad. Roedd cwestiynau eraill yn gofyn am wybodaeth ar ffurf naratif a thystiolaeth. Mae pob adran isod yn rhoi crynodeb byr o'r sylwadau a wnaed.

Cwestiwn 1 - Sut mae Covid-19 wedi effeithio ar eich bywyd chi fel gofalwr, neu fel sefydliad sy'n cefnogi gofalwyr?

12. Cafwyd 78 o ymatebion i'r cwestiwn hwn gyda llawer o'r gofalwyr unigol yn rhoi enghreifftiau personol o sut mae gwahanol faterion, gan gynnwys problemau o ran cael slotiau siopa a'r cyfyngiadau symud, wedi effeithio arnynt. Fe wnaeth eraill gynnwys enghreifftiau o anghenion gofal a chymorth y rhai y maent yn gofalu amdanynt, ynghyd â'u profiadau eu hunain.
13. I'r mwyafrif, mae effaith y pandemig wedi bod yn negyddol. Mae'r problemau sy'n effeithio ar lawer o ofalwyr o ddydd i ddydd wedi gwaethygu ochr yn ochr â heriau newydd. Mewn sawl achos, mae gofalwyr unigol wedi gweld cynnydd yn eu horiau gofalu ac yn cyflawni mwy o dasgau gofalu neu dasgau gofalu gwahanol. Roedd y risg o ddal Covid 19 a'r effaith bosibl ar y sawl sy'n derbyn gofal, neu'r gofalwr, yn bryder cyffredinol.
14. Nododd sawl unigolyn a sefydliad sy'n gweithio gyda a/neu'n cynrychioli gofalwyr, fel elusennau ac awdurdodau lleol, fod gofalwyr yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau gofalu. Gofynnodd rhai unigolion i'w gweithiwr gofal roi'r gorau i ymweld â'u cartref oherwydd bod arnynt ofn dal yr haint a phryderon ynghylch cyflenwadau annigonol o Gyfarpar Diogelu Personol. Fodd bynnag, nododd nifer fach o ymatebion fod y ffaith bod pobl yn cael eu rhoi ar ffyrlo gan eu cyflogwyr wedi arwain at gael y cyfle a'r amser i ofalu am rywun.
15. Ymhlith yr heriau ymarferol i ofalwyr di-dâl roedd diffyg mynediad at slotiau siopa â blaenoriaeth ar-lein, addasu i ddefnyddio'r rhyngwrwyd am y tro cyntaf i archebu bwyd neu fethu â chael mynediad i archfarchnadoedd ochr yn ochr â gweithwyr allweddol ar oriau penodol, oherwydd nad oedd y staff yn eu cydnabod fel gofalwr. Fodd bynnag, roedd mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn fwy o bryder i lawer, gan ei bod yn rhaid symud tuag at fynediad ar-lein neu dros y ffôn yn bennaf, yn hytrach nag apwyntiadau wyneb yn wyneb. Soniodd gofalwyr am broblemau o ran cael apwyntiadau gyda meddygon teulu i'r sawl y maent yn gofalu amdano, neu iddynt hwy eu hunain, yn ogystal ag oedi cyn cael triniaeth ddeintyddol. Fodd bynnag, ni chafodd pawb brofiad negyddol, gan ddweud bod staff y GIG yn garedig ac yn gefnogol.
16. Soniwyd bod gofalwyr unigolion â mathau penodol o gyflyrau iechyd a salwch gan gynnwys dementia, strôc, Clefyd Niwronau Motor, neu'r rhai sydd angen gofal lliniarol, yn wynebu pwysau gofalu difrifol iawn, gyda rhai gofalwyr yn darparu'r hyn sy'n cyfateb i ofal nyrsio.
17. Nodwyd bod methu â mynd gyda'r unigolyn y maent yn gofalu amdano neu ymweld ag ef pan fydd yn yr ysbyty yn bryder mawr ac yn achosi trallod i unigolion sy'n darparu gofal, yn ogystal ag i deulu a ffrindiau ehangach. Cynyddodd y trallod hwn i ofalwyr a oedd wedi dioddef profedigaeth gan eu bod yn teimlo nad oeddent wedi cael amser i alaru. Roedd hyn yn effeithio ar ofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr, yn ogystal ag oedolion. Amlygodd yr ymatebion y pwysau cynyddol a wynebir gan ofalwyr a theuluoedd oedolion a phlant ag anabledau dysgu a ddaeth yn fwyfwy rhwystredig oherwydd nad oeddent yn gallu gadael y tŷ neu gadw at y drefn arferol ac oherwydd nad oeddent yn deall y rhesymau dros y cyfyngiadau.
18. Un thema gyffredin mewn ymatebion unigol oedd ymdeimlad cynyddol o unigedd ac ynysigrwydd, yn aml oherwydd bod cyswllt ag aelodau ehangach o'r teulu a chymorth ganddynt, neu gefnogaeth ffurfiol gan weithwyr gofal cyflogedig, wedi lleihau neu wedi dod i ben yn gyfan gwbl. Roedd hyn, ynghyd â diffyg mynediad at ofal seibiant, fel cyfarfod â ffrindiau neu ddefnyddio canolfannau dydd a grwpiau cymunedol lleol, yn golygu nad oedd y rhai ag anghenion gofal a'u gofalwyr yn gallu cael egwyl. Cafodd y

ffaith bod gwasanaethau cymorth wyneb yn wyneb gan y sector cyhoeddus yn ogystal â'r trydydd sector ar gau effaith negyddol ar lawer. Fodd bynnag, addasodd llawer o ddarparwyr gwasanaethau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn gyflym o ddechrau'r pandemig gan ddechrau cynnig cyfleoedd ar gyfer mathau o ofal seibiant ar-lein.

19. Soniodd ymatebion unigol a rhai gan sefydliadau am y broblem o ddirywiad mewn iechyd meddwl, gyda llawer o ofalwyr yn profi gorbryder, straen ac iselder ysbryd, ac o bosibl ddirywiad yn eu hiechyd corfforol eu hunain. Roedd anallu gofalwyr i gael gafael ar gymorth seicolegol a gwasanaethau iechyd meddwl, ar gyfer y sawl y maent yn gofalu amdano, neu ar gyfer eu hanghenion iechyd meddwl eu hunain, yn broblem a nodwyd mewn nifer fawr o'r ymatebion. Nododd nifer bach o ymatebion fod unigolion wedi cael teimladau hunanladdol.
20. I ofalwyr eraill, gan gynnwys y rhai na fyddent o bosibl wedi cysylltu ag unrhyw wasanaethau neu gymorth o'r blaen, roeddent yn mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am wybodaeth, cyngor a chymorth. Nododd sawl sefydliad, gan gynnwys awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, gynnydd yn y gofalwyr sy'n cysylltu â nhw. Addasodd y sefydliadau hyn a'u partneriaid, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau a gomisiynwyd, eu darpariaeth yn gyflym, er enghraifft, drwy ddefnyddio galwadau ffôn i gadw mewn cysylltiad â gofalwyr; cynnig cyfarfodydd cymorth i ofalwyr ar-lein; darparu llinellau cymorth 7 diwrnod yr wythnos i ofalwyr a defnyddio gwirfoddolwyr i ffonio gofalwyr unigol dim ond i gael sgwrs.
21. Ceisiodd cyrff y sector cyhoeddus a phartneriaethau rhanddeiliaid sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu llif cyson o wybodaeth i gymunedau lleol, gan wirio canllawiau swyddogol y llywodraeth ac ystyried effaith newidiadau mewn deddfwriaeth.
22. Cymerodd byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol gamau hefyd i gefnogi eu gweithwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a ffurfio gweithgorau i weld sut y gallent helpu eu gweithwyr i gadw cydbwysedd rhwng eu gwaith a'u cyfrifoldebau gofalu, ac felly barhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol.
23. Dangosodd sawl ymateb gan ofalwyr eu rhwystredigaeth a'u dryswch ynghylch defnyddio Taliadau Uniongyrchol. Ymysg y sylwadau roedd: diffyg canllawiau clir i deuluoedd a gofalwyr; oedi hir cyn cael cysylltiad â gweithwyr cymdeithasol; cael gwybod bod eu pecynnau gofal yn cael eu hadolygu ond mewn modd nad oedd yn cael ei ystyried yn ddefnyddiol i'r unigolyn na'i ofalwr a gwybodaeth anghyson ynghylch sut y gallent addasu'r defnydd o'u Taliadau Uniongyrchol.
24. Cododd nifer fawr o'r ymatebion bryderon sylweddol ynghylch cynnydd yn y pwysau ariannol ar deuluoedd ac unigolion sydd â chyfrifoldebau gofalu. Roedd hyn yn cynnwys gofalwyr yn poeni am allu talu biliau. Mae gwariant wedi cynyddu i lawer o bobl ar eitemau fel bwyd a gwres, oherwydd eu bod yn treulio mwy o amser gartref oherwydd cyfyngiadau symud a orfodwyd gan y llywodraeth a'r angen i weithio gartref lle bo modd. Mae hyn wedi cynyddu lefelau straen a gorbryder i ofalwyr. Mae wedi effeithio'n arbennig ar aelwydydd sydd eisoes ar incwm isel, ond mae llawer mwy o aelwydydd bellach yn wynebu anawsterau oherwydd eu bod wedi cael eu rhoi ar ffyrlo gan eu cyflogwyr, neu wedi colli eu swyddi.
25. Tynnodd sawl ymateb sylw at y ffaith na all pob gofalwr hawlio Lwfans Gofalwr. Lle mae gofalwyr yn gymwys, maent am i lefel y taliad Lwfans Gofalwr gynyddu. Mae eraill yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar Gredyd Cynhwysol a soniodd sefydliadau nad yw gofalwyr, yn rhy aml, yn hawlio'r ystod lawn o fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt.

26. Mae'r "gagendor digidol" hefyd wedi amlygu'r costau gwahanol a chynyddol sy'n wynebu gofalwyr. Noda ymatebion gan ofalwyr unigol, cyrff statudol a sefydliadau'r trydydd sector fod llawer o ofalwyr yn methu â chael mynediad at wasanaethau a chael y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt, oherwydd nad oes ganddynt ffôn clyfar na gliniadur. Ymhlith y rhai sydd â dyfais, ni allant fforddio pecynnau data addas. Mae gan eraill ddiffyg hyder wrth ddefnyddio TG ac mae angen hyfforddiant arnynt i'w helpu i fynd ar-lein.
27. Nodwyd bod trafndiaeth yn bwysig i lawer - addasodd gwasanaethau trafndiaeth gymunedol lleol eu gwasanaethau er mwyn siopa bwyd yn rheolaidd i'r rhai na allent adael eu cartref; danfon parseli bwyd a gweithio gyda fferyllfeydd lleol i drefnu i gasglu a danfon presgripisynau.

Cwestiwn 2. Beth ydych chi'n meddwl y dylai Llywodraeth Cymru ei flaenoriaethu i roi gwell cefnogaeth i ofalwyr di-dâl sydd wedi'u heffeithio gan Covid-19, nawr ac os bydd tonnau eraill o'r haint?

28. Cafwyd 75 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Yn yr un modd â chwestiwn 1, ysgogodd y cwestiwn hwn ystod eang o ymatebion gan bob math o ymatebydd, gan gynnwys gofalwyr unigol. Yn allweddol ymhlith y galwadau am flaenoriaethu cymorth roedd ailagor cymorth a gwasanaethau wyneb yn wyneb yn gyflym.
29. Nodwyd yn glir pa mor bwysig ydoedd i ofalwyr a'u teuluoedd gael mynediad at lefelau uwch o gymorth a chefnogaeth ariannol, yn enwedig ymhlith yr ymatebion gan ofalwyr unigol. Ymhlith y dulliau a awgrymwyd er mwyn cyflawni hyn roedd cynyddu lefel budd-dal lles y DU, y Lwfans Gofalwr. Fodd bynnag, nododd gofalwyr eraill nad ydynt yn gymwys i gael y lwfans hwn.
30. Nododd gofalwyr hŷn bwysau cynyddol oherwydd eu bod yn dibynnu ar eu pensiwn ond yn wynebu costau uwch o ran biliau bwyd a'r cartref, ynghyd ag anghenion gofal a chymorth yr unigolyn y maent yn gofalu amdano. Awgrymwyd y dylid cynyddu mathau eraill o gymorth ariannol i unigolion cymwys, megis Taliadau Annibyniaeth Personol a Lwfans Byw i'r Anabl. Galwyd am ei gwneud yn haws i ofalwyr hawlio budd-daliadau, oherwydd nid oes gan lawer yr amser na'r egni i gwblhau llwyth o waith papur, sy'n aml yn gallu bod yn ddryslyd.
31. Soniodd llawer am yr angen i'r llywodraeth ac eraill godi proffil gofalwyr di-dâl a'u rôl, a thynnu sylw at eu pwysigrwydd. Mynegodd gofalwyr unigol y farn, er bod staff y GIG a gweithwyr gofal cyflogedig wedi cael eu cydnabod ac y diolchwyd iddynt am eu rôl yn y pandemig, roedd gofalwyr di-dâl wedi mynd yn angof.
32. Nodwyd mai helpu gofalwyr i ddeall eu hawliau a pha gymorth a chefnogaeth y gallant eu cael, ar yr un pryd â sicrhau bod cymunedau a sefydliadau yn deall anghenion gofalwyr, oedd bwysicaf. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu bod gwasanaethau wedi dychwelyd i ganolbwyntio ar anghenion y rhai a oedd yn derbyn gofal, ac felly eu bod yn anwybyddu anghenion gofalwyr. Galwodd eraill am hunaniaeth genedlaethol ar gyfer gofalwyr, ac i'r llywodraeth a sefydliadau sicrhau nad yw unigolion yn methu diweddariadau a gohebiaeth neu ganllawiau pwysig oherwydd gorddibyniaeth ar wefannau.
33. Er y cyfeiriwyd at bwysigrwydd y brechiad Covid 19 a bod galwadau i bob gofalwr fod ymhlith y grwpiau blaenoriaeth, ychydig o sylwadau a wnaed ar hyn. Gwnaed mwy o sylwadau am bwysigrwydd sicrhau bod gofalwyr yn gallu cael gofal seibiant. Roedd y pwysau ar iechyd meddwl yn cynyddu oherwydd nad yw unigolion a theuluoedd wedi

gallu gadael y tŷ heblaw i wneud ymarfer corff, nac wedi gallu gwylaiu byr oddi cartref. Mae hyn yn arbennig o ddifrifol ar y lefel uchaf o gyfyngiadau symud - Lefel 4.

34. Soniwyd sawl gwaith am gyflenwad a mynediad parhaus at Gyfarpar Diogelu Personol am ddim, yn ogystal â'r angen am fwy o gymorth seicolegol a gwasanaethau iechyd meddwl a gwell mynediad atynt. Cafwyd galwadau hefyd i flaenoriaethu ac ariannu dyfeisiau digidol, band eang am ddim a llinellau ffôn. Mae angen cymorth ar ofalwyr ifanc gyda'u haddysg nawr, ond hefyd bydd angen cymorth ychwanegol arnynt ar ôl dychwelyd i'r ysgol neu'r coleg. Dylent hefyd fod yn ymwybodol o'u hawl i gael asesiad o anghenion gofalwyr.
35. Nododd sefydliadau bwysigrwydd mynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â'r system a'u blaenoriaethu, a chynllunio ar gyfer adferiad drwy sicrhau bod gweithwyr gwasanaethau cymdeithasol rheng flaen yn cael hyfforddiant priodol i gydnabod gofalwyr, a sicrhau bod ganddynt lais. Galwodd sawl ymatebydd am drin gofalwyr yn yr un modd ag y caiff staff gofal proffesiynol eu trin.
36. Codwyd buddsoddi cyllid mewn gwasanaethau cyhoeddus ac yn y trydydd sector, a chafwyd sylwadau ar yr angen i fuddsoddi yn y sector gofal cymdeithasol cyflogedig er mwyn helpu i leddfu pwysau ar ofalwyr, ac i fuddsoddi mewn seilwaith a gwasanaethau i bobl hŷn a phlant. Nododd nifer fach o'r ymatebwyr bwysigrwydd arweinyddiaeth a chynllunio strategol i'r holl randdeiliaid.

Nodweddion gwarchoddedig

37. Roedd Adran 3 o'r ddogfen ymgynghori yn gofyn cwestiynau am "Ofalwyr â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010", Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a gynhwysir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a dyletswyddau cydraddoldeb penodol Cymru, sy'n ei gwneud yn ofynnol inni nodi'r hyn y gallwn ei wneud i gael gwared ar rwystrau a gwella cyfranogiad a chanlyniadau i bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol neu sy'n dioddef anfantais anghymesur.

Cwestiwn 3. Beth yw'r prif anghydraddoldebau y mae gofalwyr â nodweddion gwarchoddedig yn eu hwynebu y dylai'r Strategaeth newydd ar gyfer gofalwyr di-dâl fynd i'r afael â nhw?

38. Cafwyd 68 o ymatebion i'r cwestiwn hwn - barn a fynegwyd, ac a atgyfnerthwyd gydag enghreifftiau gan unigolion a sefydliadau, oedd yr angen i gydnabod y gall gofalwyr gael eu hanghenion cymorth iechyd corfforol a meddyliol eu hunain ac felly mae angen teilwra cymorth i adlewyrchu hyn. Dylai fod modd addasu'r cymorth i ddiwallu anghenion amrywiol pob gofalwr, adlewyrchu'r gymuned y maent yn byw ynndi a bod yn sensitif i anghenion diwylliannol ac oedran. Ni ddylid mabwysiadu un dull sy'n addas i bawb. Yn gyffredinol, galwyd am fwy o ymdrech ar draws yr holl wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau eraill a ddefnyddir gan ofalwyr, i nodi a deall aanghenion gofalwyr â nodweddion gwarchoddedig as sicrhau bod yr anghenion hynny'n cael eu diwallu.
39. Mae Covid-19 wedi tynnu sylw at anawsterau sydd eisoes yn bodoli ond mae hefyd wedi creu anawsterau newydd ac ychwanegol. Er enghraifft, gall allgau digidol fod yn gysylltiedig ag iaith, anabled neu oedran. Ystyriwyd bod codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ehangach i staff sy'n rhyngweithio â gofalwyr a chanddynt nodweddion gwarchoddedig yn fuddiol.
40. Ymhlith y rhwystrau eraill a nodwyd ar gyfer cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig roedd sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn methu â

chydabod a darparu ar gyfer anghenion diwylliannol, deietegol ac ieithyddol penodol mewn ysbytai, cartrefi gofal ac yng nghartrefi pobl ac nid oedd gwybodaeth a chymorth ar gael mewn ieithoedd gwahanol. Gall sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector hefyd dybio y bydd teuluoedd o gefndir diwylliannol penodol yn gofalu am aelodau eu teulu yn awtomatig ac nad oes angen cymorth arnynt. Yn aml, nid yw hyn yn wir.

41. Ystyriwyd bod gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i helpu i ddatrys y materion hyn drwy weithio gyda sefydliadau a all ymgysylltu'n fwy effeithiol â chymunedau lleiafrifoedd ethnig, yn ogystal â deunydd cyfathrebu wedi'i dargedu'n well at ofalwyr o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, dylid mynd i'r afael yn uniongyrchol â gwahanol amgylchiadau ac agweddau diwylliannol neu gredoau, yn hytrach na defnyddio dull cyfathrebu generig sy'n targedu pob gofalwr.
42. Weithiau ni fydd gan wasanaethau ymwybyddiaeth ddiwylliannol o wahanol anghenion yn ymwneud â ffydd a chredoau unigolyn. Efallai na fydd gofalwyr yn cael eu cydnabod yn eang mewn rhai cymunedau lleiafrifoedd ethnig neu gymunedau ffydd - gall fod rhwystrau diwylliannol sy'n atal rhai cymunedau rhag cael mynediad at wasanaethau yn gyffredinol.
43. O ran gofalwyr anabl, gellir anwybyddu eu hanableddau eu hunain neu nid yw'r gofal y maent yn ei ddarparu bob amser yn cael ei gydnabod, felly mae angen cymorth ar gyfer gofalwyr sydd eu hunain yn anabl, sydd ag anawsterau dysgu neu y mae ganddynt Gyflwr ar y Sbectwm Awstistiaeth, er enghraifft.
44. Cyflwynodd sawl ymateb wybodaeth am yr anghydraddoldebau a brofir yn aml iawn gan fenywod a merched sy'n wynebu rhwystrau o ran cael mynediad at wasanaethau, neu ddiffyg gwasanaethau cywir yn y lleoedd iawn i'w cefnogi. Mae cysylltiadau rhwng gofalu a diffyg cyfleoedd cyflogaeth, gyda llawer o fenywod yn wynebu tlodi neu'n byw ar incwm isel. Mae hon yn broblem gyffredin yn fyd-eang oherwydd mae cymdeithasau yn aml yn methu â gwerthfawrogi rolau gofalu. Mae menywod yn fwy tebygol o fod yn ofalwyr ac mae hynny'n effeithio ar eu potensial i ennill cyflog ac ar eu hyder. Ymhlith y sylwadau roedd y ffaith nad oedd digon o gymorth sydd wedi'i deilwra'n benodol i ofalwyr gwrywaidd neu fenywaidd.
45. Darparwyd enghreifftiau o'r straen meddyliol a chorfforol sylweddol a brofir gan unigolion sy'n gofalu am oedolion neu blant ag anableddau corfforol neu anawsterau dysgu. Efallai y bydd angen addasiadau ffisegol ar ofalwyr ag anableddau neu broblemau iechyd ynghyd â mynediad at wybodaeth a chyngor. Roedd galwadau hefyd am fynediad at fwy o ofal seibiant, a bod angen i sefydliadau gofal cymdeithasol ac eraill ystyried anghenion iechyd y gofalwr, nid dim ond yr unigolyn a chanddo anghenion gofal a chymorth. Mae ofnau rhieni sy'n ofalwyr, a allai fod yn heneiddio ac yn gofalu am fab neu ferch sy'n oedolyn ag anabledd dysgu, yn aml yn gysylltiedig â'r hyn a fydd yn digwydd os a phryd na fyddant yn gallu gofalu am yr aelod o'u teulu mwyach.
46. Nodwyd bod y rhai yn y gymuned LGBTQ+ yn profi anghydraddoldeb oherwydd ofnau'n ymwneud â stigma neu wahaniaethu o fewn y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, a'u bod yn aml yn teimlo bod gwasanaethau'n anaddas ar gyfer eu hanghenion ac felly efallai na fyddant yn eu defnyddio. Dywedodd gofalwyr wrthym fod gwasanaethau yn aml yn gwneud rhagdybiaethau am berthynas gofalwr â'r sawl y mae'n gofalu amdano, a all achosi trallod neu bryder diangen. Efallai eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus yn aros yn eu cartref oherwydd yr ofn hwn, ac mae hynny, yn anochel, yn cynyddu'r pwysau ar ofalwr i ddarparu mwy o ofal am gyfnod hwy.
47. Ar gyfer unigolion LGBTQ+ ag anghenion gofal, a gofalwyr LGBTQ+, roedd un agwedd benodol ar anghydraddoldeb yn gysylltiedig â'u profiadau o ofal diwedd oes. Amlygwyd

bod partneriaid yn aml yn teimlo'n ynysig neu heb gefnogaeth yn ystod y brofedigaeth oherwydd eu rhywioldeb. Efallai na fydd eu perthnasoedd yn agored ac yn hysbys sy'n golygu efallai na fydd galar yn cael ei gydnabod mewn ffordd gefnogol. O ganlyniad, efallai na fydd gofalwyr yn y gymuned LGBTQ+ yn manteisio ar y cymorth corfforol, emosiynol neu ariannol y maent yn gymwys i'w gael.

48. Mae'r dystiolaeth a ddarperir o brofiadau gofalwyr trawsryweddol yn dangos y gall gwasanaethau fod yn anghyfarwydd â thrin cleifion traws ac y gall staff ofyn cwestiynau amhriodol neu ddangos diffyg hyder wrth gefnogi person traws. Awgrymwyd darparu hyfforddiant i baratoi ac arfogi staff i weithio gyda gofalwyr sy'n wahanol iddynt hwy, neu sydd y tu allan i'w cylch cyfeirio, fel un ffordd o fynd i'r afael â hyn.
49. Nodwyd bod angen cymorth ychwanegol ar ofalwyr â nam ar eu synhwyrau i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys mewn sgwrsiau a phenderfyniadau ynghylch y sawl y maent yn gofalu amdano. I unigolion byddar a'r rhai sydd wedi colli eu clyw, byddai mynediad at ddehonglydd iaith arwyddion Prydain mewn apwyntiadau meddygol (i'r gofalwr ac nid dim ond y claf) yn darparu manteision gwirioneddol, gan fod gwasanaethau gwael ac annigonol ar gyfer pobl sy'n defnyddio iaith Arwyddion Prydain. Hefyd, mae angen gwybodaeth feddygol a gwybodaeth arall arnynt mewn fformatau hygyrch. Un enghraifft a gynigiwyd oedd yr angen i godi ymwybyddiaeth o ddementia yn y gymuned fyddar. I'r rhai sydd â nam ar eu synhwyrau sy'n byw mewn cymunedau gwledig a lle nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, gallai cymysgedd o gymorth TG a llinell gymorth eu cynorthwyo i gael mynediad at adnoddau priodol ar-lein, i ymgysylltu, siarad a chysylltu ag eraill.
50. Nodwyd bod pobl hŷn yn llai tebygol o gydnabod a symptomau problemau iechyd meddwl cyffredin a gweithredu arnynt am nifer o resymau gan gynnwys rhwystrau ymarferol, iaith iechyd meddwl, rhagdybiaethau meddygon teulu ynghylch eu dewisiadau, a derbyn bod teimlo'n isel eu hysbryd yn un o'r agweddau arferol ar heneiddio. Galwyd am gamau i egluro cymorth iechyd meddwl, a'i wneud yn fwy perthnasol a dealladwy i ofalwyr hŷn. Gellid cyflawni hyn drwy weithio gyda sefydliadau cymunedol dibynadwy i sicrhau bod y cymorth cywir yn hygyrch. Cyfeiriwyd hefyd at bwysigrwydd helpu'r rhai sy'n gofalu am bobl â dementia, oherwydd mae llawer o ofalwyr, gan gynnwys gofalwyr hŷn, yn profi problemau iechyd meddwl, fel iselder.
51. I bobl ifanc a gofalwyr ifanc, soniodd yr ymatebion am wahanol rwystrau. Bydd angen cymorth neu wybodaeth ychwanegol ar lawer o ofalwyr ifanc ac oedolion sy'n ofalwyr ifanc oherwydd eu rhyw, anabledd, crefydd, hil neu gyfeiriadedd rhywiol. Yn fwy cyffredinol roedd y rhwystrau a grybwyllwyd gan ymatebwyr yn cynnwys anhawster o ran cyfathrebu â gweithwyr proffesiynol oherwydd eu bod yn ifanc ac nad yw eu rôl ofalu yn cael ei chydabod. Felly mae angen help ar lawer o ofalwyr ifanc i gydnabod eu bod yn ofalwyr a cheisio cymorth yn amserol. Roedd eraill yn cynnwys diffyg hyfforddiant cyffredinol a phroffesiynol i weithwyr mewn sectorau iechyd a sectorau eraill i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc a'r problemau y maent yn eu hwynebu. Gall gwasanaethau i ofalwyr ifanc bennu isafswm oedran er mwyn cael mynediad at wasanaethau awdurdodau lleol neu wasanaethau wedi'u comisiynu. Hefyd, nid yw gofalwyr ifanc yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn ymgynghoriadau neu benderfyniadau sy'n ymwneud â'r sawl y maent yn gofalu amdano. Gallant hefyd wynebu nifer anghymesur o rwystrau, anghydraddoldebau a chael canlyniadau llesiant gwaeth oherwydd eu hoedran.
52. Daw gofalwyr o bob math o gefndir a demograffeg. Bydd gan lawer o ofalwyr un nodwedd warchoddedig neu fwy. Dadleuwyd felly y dylai gofalwyr fod yn grŵp â nodwedd warchoddedig yn eu rhinwedd eu hunain. Roedd galwadau hefyd am ddefnyddio asesiadau o anghenion gofalwyr i helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Dylai ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr gael

hyfforddiant am Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a sut mae'n berthnasol i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dylai'r gwaith papur sy'n ymwneud ag asesu gofalwyr hefyd gynnwys mecanwaith ar gyfer monitro a sicrhau bod unrhyw agweddau ar gydraddoldeb wedi'u hystyried yn briodol yn y broses.

Gofalwyr Ifanc a Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc

Cwestiwn 4 - Beth yw'r heriau allweddol rydych chi'n eu hwynebu fel gofalwr ifanc/gofalwr sy'n oedolyn ifanc neu fel sefydliad sy'n cefnogi gofalwyr ifanc?

53. Cafwyd 48 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Amlygodd mwyafrif yr ymatebion ystod o heriau, gyda llawer ohonynt yn cael eu dylanwadu gan y pandemig neu eu gwaethygu ganddo, gan gynnwys:
- methu â gadael cartref a gweld eu ffrindiau neu rwydweithiau teuluol ehangach;
 - ymdopi â chynnydd yn nifer yr oriau y maent yn darparu gofal;
 - problemau o ran cael mynediad at wasanaethau gan gynnwys slotiau siopa ar-lein;
 - y ffaith nad yw eu hanghenion fel gofalwr ifanc yn cael eu hystyried yn ddigonol wrth gasglu meddyginiaeth ar gyfer y rhai y maent yn gofalu amdanynt;
 - ychydig neu ddim mynediad at fathau o ofal seibiant yn enwedig cymorth wyneb yn wyneb;
 - gweithgareddau cymdeithasol fel clybiau a grwpiau cymunedol yn cau sy'n golygu na allant ddilyn diddordebau a hobiau;
 - ceisio cydbwysu dysgu ar-lein â'u cyfrifoldebau gofalu yn sgil y ffaith bod ysgolion a cholegau ar gau.
54. Thema allweddol ar draws yr holl ymatebion i'r cwestiwn hwn oedd y cynnydd mawr mewn gorbryder a straen a brofwyd gan y gofalwyr ifanc, gan gynnwys ofnau ynghylch mynd â'r feirws gartref i aelodau o'r teulu sy'n agored i niwed. Yn aml, roedd y pryderon hyn yn cyfuno â ffactorau eraill fel diffyg seibiannau o'r rôl ofalu, methu â gweld ffrindiau a phryderon am arholiadau ysgol. Mae llawer o'r rhain wedi arwain at ddirywiad yn iechyd meddwl a llesiant gofalwyr ifanc eu hunain.
55. Mater hanfodol a oedd yn effeithio ar lawer o ofalwyr ifanc ac a adroddwyd mewn nifer o ymatebion, oedd diffyg mynediad at ddyfeisiau digidol. Mae angen help ar ofalwyr ifanc i gael mynediad at ddysgu ar-lein a chymorth gan eu hathrawon.
56. Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at bryderon a rhwystrau hirsefydlog a brofwyd gan ofalwyr ifanc, er enghraifft, cymorth annigonol sy'n briodol i oedran i ofalwyr ifanc, gyda gwasanaethau'n canolbwyntio'n rhy aml ar oedolion. Tynnodd eraill sylw at bryderon bod ysgolion yn methu â darparu digon o gymorth a chynngor i oedolion ifanc sy'n ofalwyr y mae angen cymorth arnynt wrth iddynt symud o'r ysgol i addysg bellach neu addysg uwch, neu sy'n chwilio am waith. Nododd y mwyafrif fodd bynnag fod diffyg cydnabyddiaeth gyffredinol gan ysgolion o'r materion sy'n effeithio ar ofalwyr ifanc yn parhau i fod yn rhwystr mawr i wella'r cymorth iddynt.

Heriau i sefydliadau

57. Amlygodd awdurdodau lleol sy'n darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i ofalwyr ifanc, neu drwy ddarparwyr a gomisiynwyd gan y trydydd sector, eu hanawsterau wrth gefnogi gofalwyr ifanc. Mae'r pandemig wedi eu hatal rhag cynnig gwasanaethau wyneb yn wyneb, darparu gwaith grŵp, neu gynnig gwibdeithiau a gweithgareddau hwyliog. Mae cefnogi gofalwyr ifanc sy'n profi mwy o broblemau

iechyd meddwl hefyd wedi cyflwyno heriau i sefydliadau pan na all gofalwr ifanc gael gafael ar gymorth wyneb yn wyneb. Gall eu hanghenion cymorth ddod yn fwy cymhleth yn sgil cyfuniad o wahanol ffactorau, fel mwy o bryder neu iselder.

58. Cyfeirir yn aml at ofn a stigma ynghylch cael eu hadnabod fel teulu ag anghenion gofal mewn perthynas â gofalwyr ifanc nad ydynt am i'r ysgol wybod bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu. Nid yw gwasanaethau eraill wedi gallu cael mynediad at ysgolion a siarad â gofalwyr ifanc gan arwain at bryderon y byddant yn cael mwy o anhawster i ailymgysylltu â'r gofalwr ifanc yn y dyfodol. Argymhellodd un ymatebydd dull aml-asiantaeth o gefnogi gofalwyr ifanc a'u teuluoedd, gyda gwahanol wasanaethau mewn cysylltiad â'r teulu yn rhannu gwybodaeth ac yn ystyried sut y mae gwahanol broblemau'n rhyngweithio.
59. Dywedodd sefydliadau'r trydydd sector mai her fawr o ran darparu gwasanaethau i ofalwyr ifanc yw diffyg buddsoddiad strategol a hirdymor gan y llywodraeth neu gyrff statudol, gan gynnwys awdurdodau lleol. Ym marn rhai, mae hyn wedi arwain at ddarparu gwasanaeth tameidiog, ansicrwydd ac anallu i gynllunio ar gyfer y tymor hwy.

Cwestiwn 5. Pa gymorth ychwanegol fyddai'n helpu? (Gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc)

60. Cafwyd 47 o ymatebion i'r cwestiwn hwn er bod tua hanner yr ymatebion yn bwyntiau cyffredinol am faterion sy'n effeithio ar ofalwyr o bob oed. Fodd bynnag, daeth sawl thema wahanol i'r amlwg yn canolbwyntio ar y materion a nodwyd mewn ymatebion blaenorol i gwestiynau 1 - 4. Y rhain oedd pwysigrwydd cymorth a chefnogaeth addysgol; mynd i'r afael ag anghenion iechyd ac iechyd meddwl a llesiant; gwella'r ddealltwriaeth o hawliau gofalwyr ac ymwybyddiaeth pobl o'r hawliau hynny; ynghyd â phwysigrwydd gofal seibiant a chael egwyl o'u rôl ofalu.
61. Cyfeiriodd y mwyafrif at wella cymorth mewn ysgolion a lleoliadau addysg, ac roedd angen sicrhau bod gweithwyr proffesiynol addysg, ysgolion a cholegau yn helpu gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr ar gyfnodau pontio allweddol, yn enwedig yn 16 oed ac yn 18 oed. Dywedwyd na ddylai staff ysgolion a phobl eraill fod â disgwyliadau isel o'r hyn y gall gofalwr ifanc ei gyflawni. Dylai gofalwyr ifanc fod ag uchelgeisiau gyrfa a pheidio â chael eu dal mewn magl o ddisgwyliadau isel, cyrhaeddiad is a theimlo mai eu hunig ddewis yw parhau mewn rôl ofalu ar ôl yr ysgol neu'r coleg. Cyfeiriwyd hefyd at ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaedd wedi'u targedu, a allai gynnwys helpu gofalwyr ifanc i gydnabod y sgiliau y maent yn eu dysgu drwy eu rôl ofalu.
62. Awgrymwyd y dylai'r argymhellion yn adroddiad Thematig Estyn a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019, "Darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru", gael eu hystyried a'u rhoi ar waith gan bob ysgol a choleg.
<https://dera.ioe.ac.uk/33560/3/Young%20carers%20thematic%20report%20-%20cy%20%28redacted%29.pdf> Galwyd hefyd am roi dyletswydd gyfreithiol benodol ar ddarparwyr addysg i adnabod gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr.
63. Gwnaed nifer o awgrymiadau eraill i wella cymorth ac roeddent yn cynnwys pwysigrwydd cynnal asesiadau ffurfiol o anghenion gofalwyr ifanc, a darparu mwy o hyfforddiant i staff awdurdodau lleol i'w cynnal, ynghyd â sicrhau eu bod yn cael eu cynnal mewn ffordd sy'n briodol i oedran.

64. Cefnogwyd y syniad o gyflwyno a defnyddio cerdyn adnabod cenedlaethol ar gyfer Gofalwyr Ifanc, yn enwedig os oedd cerdyn yn cynnig manteision fel teithio am ddim a mynediad i gyfleusterau hamdden am ddim neu ostyngiadau mewn siopau. Soniodd eraill am fwy o gymorth ariannol i ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc ar ffurf grantiau. Cyfeiriwyd at grant gofalwyr ifanc Llywodraeth yr Alban i bobl ifanc 16-18 oed fel enghraifft.
65. Nodwyd ei bod yn hollbwysig sicrhau bod mwy o ofalwyr ifanc yn gallu cael gofal seibiant ac egwyl o ofalu, ynghyd â phwysigrwydd sicrhau bod gofal seibiant yn amserol ac yn briodol a darparu dewis o wahanol fathau o ofal seibiant.

Cwestiwn 6. Sut mae Covid-19 wedi effeithio ar eich bywyd bob dydd? (I ofalwyr ifanc/gofalwyr sy'n oedolion ifanc).

66. Cafwyd 55 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd llawer o'r ymatebion yn cynnwys sylwadau a godwyd mewn ymatebion blaenorol i gwestiwn 1 a chwestiwn 4, ac sydd felly wedi'u cynnwys yn y crynodebau ar gyfer y cwestiynau hynny.
67. Soniwyd am y rhai sy'n gofalu am frodyr a chwiorydd mewn mwy nag un ymateb fel rhai a oedd yn profi cynnydd mewn niwed corfforol oherwydd bod gan eu brawd neu chwaer broblemau ymddygiad. Gwnaeth sawl un sylwadau ar y cynnydd yn yr amser yr oedd y rhai sy'n gofalu am frodyr a chwiorydd yn ei dreulio'n darparu gofal a'r ffaith eu bod yn colli cymorth gan deulu a ffrindiau. Efallai bod y gofalwyr hyn hefyd yn profi diffyg dealltwriaeth gan athrawon a phobl eraill. Gall hyn wneud profiad gofalwyr ifanc o ofalu am aelod o'r teulu ag anabledau dysgu, anabledau corfforol, neu gymysgedd o anghenion iechyd a chymorth cymhleth, yn anoddach.

Tair Blaenoriaeth Genedlaethol i Ofalwyr

Blaenoriaeth 1 - Adnabod a chydabod gofalwyr di-dâl - mae gofalwyr yn haeddu cael eu cydnabod a'u cefnogi er mwyn iddynt allu parhau i ofalu.

Cwestiwn 7 - Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu sy'n cael eu hawgrymu?

68. O blith y 60 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif yn cytuno â'r camau gweithredu a awgrymwyd yn y ddogfen ymgynghori.
69. Roedd yr ymatebion yn cynnwys yr angen am gyfathrebu'n fwy effeithiol gyda gofalwyr ac ar eu rhan, ond hefyd ymhlith gwasanaethau ym mhob sector, er mwyn sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael eu hadnabod yn gynnar fel y gallant gael cymorth a chefnogaeth briodol. Mae angen i ofalwyr wybod pa wasanaethau sydd ar gael ar eu cyfer, a gwybod eu bod yn gallu cael gwybodaeth a chyngor o ansawdd da.
70. Dywedodd nifer fach o gyrff y trydydd sector, er eu bod yn cytuno â'r camau a nodwyd, bod angen gweithredu gyda phartneriaid perthnasol ac mewn ffyrdd mwy cydweithredol. Dylai fod dull addas hefyd i ddwyn pobl neu sefydliadau i gyfrif am yr hyn y maent yn ei wneud. Mae angen cefnogi gweithgaredd gyda chyllid priodol hefyd.
71. Codwyd y ffaith bod y derminoleg, yr iaith, y pwrpas a'r canlyniadau a nodir pan fydd gofalwr di-dâl yn cael asesiad o anghenion gofalwr yn bwysig iawn. Gwelwyd bod y ffaith bod staff gofal cymdeithasol awdurdodau lleol yn defnyddio gwahanol eiriau neu ymadroddion yn achosi dryswch ymhlith gofalwyr. Gallai dull ysgafnach, llai ffurfiol o gynnal asesiad ei gwneud yn haws i ofalwr gael y sgwrs bwysig honno am ei anghenion cymorth. Felly roedd angen iaith syml a hawdd ei deall.

72. Ar draws ystod o ymatebion gan y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, dywedwyd bod y ffaith bod y deunydd cyfathrebu yn y cyfryngau cenedlaethol a chan y llywodraeth yn defnyddio'r term gofalwr i gyfeirio at weithiwr gofal cyflogedig yn creu dryswch ymysg gofalwyr. Roedd rhai o'r farn bod y Curo Dwylo Cenedlaethol wythnosol ar gyfer Gofalwyr yn ystod 2020 wedi achosi dryswch mawr. Roedd rhai yn anghytuno â'r ffaith bod grwpiau eraill yn defnyddio'r term gofalwr, oherwydd nid oeddent yn ofalwyr di-dâl.
73. Cafwyd cryn gefnogaeth i Lywodraeth Cymru gynnal ymgyrch gyfathrebu genedlaethol i godi ymwybyddiaeth ymhlith unigolion eu bod yn ofalwyr, bod gan ofalwyr hawliau, ac i'w hysbysu am yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer gofalwyr di-dâl.
74. Er mwyn cynorthwyo'r trafodaethau a'r camau gweithredu ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol ynghylch adnabod gofalwyr di-dâl, roedd argymhellion y dylai'r gofalwyr ac eraill ystyried gofalwyr fel partneriaid. Dylai gofalwyr fod yn aelodau o weithgorau, fforymau cynllunio a byrddau cynghori, er mwyn sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed. Dylai'r gofalwyr sy'n ymgysylltu fel hyn hefyd adlewyrchu amrywiaeth y gofalwyr eu hunain, a all fod ag ystod eang o gyfrifoldebau ac amgylchiadau gofalu.
75. Codwyd pryder penodol efallai na fyddai rhai rhieni sy'n ofalwyr yn cael eu cydnabod fel gofalwr oherwydd eu bod yn rhiant i'r plentyn ag anghenion gofal a chymorth. Ystyriwyd bod defnyddio straeon personol am ofalwyr yn ffordd o wella hyfforddiant ar gyfer staff y sector cyhoeddus a staff eraill, yn ogystal â chreu fforymau i rieni sy'n ofalwyr ym mhob rhan o Gymru.
76. Er bod y mwyafrif o'r sylwadau'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr a chyfathrebu, fe wnaeth nifer fach o ymatebwyr sylwadau ar y defnydd o ddata. Soniwyd am bwysigrwydd canfod nifer y gofalwyr yng Nghymru gan gyfeirio at Gyfrifiad Cenedlaethol 2021. Galwodd rhai am ychwanegu mwy o "fetrigau", ffyrdd o fesur neu asesu gweithgaredd, at y Fframwaith Perfformiad a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol presennol. Dylai'r rhain gynnwys cyfrif nifer y gofalwyr di-dâl sy'n gwrthod asesiad o anghenion gofalwyr.
77. Yn fwy cyffredinol, argymhellwyd y dylid gwneud gwaith codi ymwybyddiaeth gyda sefydliadau a busnesau ar draws economi Cymru, nid dim ond ymysg y rhai sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod gan bawb ddealltwriaeth o ofalwyr ac ymgorffori hyn yn eu ffyrdd o weithio. Gallai hyn gynnwys cydnabod y cymorth y gall cyflogwyr ei ddarparu i'w gweithwyr eu hunain sydd â chyfrifoldebau gofalu, i sicrhau bod cynhyrchion a gwasanaethau yn diwallu anghenion gofalwyr di-dâl yn well.

Cwestiwn 8. A oes unrhyw beth arall y dylai cyrff cyhoeddus a'u partneriaid ei wneud i adnabod a chydabod gofalwyr?

78. Ymatebodd 68 i'r cwestiwn hwn a gwnaed ystod eang o awgrymiadau gan bob math o ymatebydd. Roedd nifer fawr o'r awgrymiadau yn adleisio'r ymatebion i gwestiwn 7, megis gwell cymorth i ofalwyr cyflogedig.
79. Canolbwyntiodd gofalwyr unigol y mwyafrif o'u sylwadau ar bethau ymarferol a allai wella eu sefyllfa yn uniongyrchol. Gwnaeth eraill sylwadau ar yr hyn a ystyriwyd yn rôl cyrff cyhoeddus a chyrff statudol, gan gynnwys awdurdodau lleol a'r GIG. Codwyd yn gyson y ffaith bod y rhyngweithio a'r gwaith partneriaeth ar draws lleoliadau iechyd a'r trydydd sector yn bwysig.
80. Roedd nifer o ymatebion yn cyfeirio at leoliadau iechyd gyda rhai ymatebwyr yn argymhell creu cofrestr ganolog neu restr o ofalwyr di-dâl y gallai gwahanol asiantaethau gael mynediad atynt. Hefyd, awgrymwyd sicrhau bod gan bob Ymddiriedolaeth a

sefydliad y GIG bolisiau sefydliadol clir i helpu eu staff eu hunain sy'n ofalwyr, yn ogystal â gofalwyr di-dâl ymysg y boblogaeth.

81. Ffyrdd eraill o wella cydnabyddiaeth a chefnogaeth oedd hyrwyddo mathau electronig o gymorth fel defnyddio gwefan genedlaethol DEWIS. Argymhellwyd bod y wybodaeth yn cael ei diweddarau, hefyd y gallai gwasanaethau GIG 111 gysoni eu gwybodaeth ag adnoddau o'r fath.
82. Cyfeiriodd ymatebwyr eraill at enghreifftiau o fentrau strategol eraill neu at arfer da yn eu cymunedau eu hunain. Un awgrym oedd model "yn seiliedig ar y gofalwr" a fyddai'n helpu i sicrhau cyfathrebu rhwng gwahanol asiantaethau ac yn helpu i osgoi dyblygu. Cafwyd awgrym hefyd, oherwydd y cysylltiad rhwng cyfrifoldebau gofalu ac incwm isel, y dylai asesiad o anghenion gofalwyr gynnwys yr hawl i ofalwyr gael eu hatgyfeirio i gale gwiriad budd-daliadau.

Cwestiwn 9. A ddylid newid geiriad presennol Blaenoriaeth Un? Os felly, sut?

83. O blith yr 55 ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif eisiau i eiriad Blaenoriaeth Un gael ei addasu ond nid ei ddiwygio'n llwyr.
84. I lawer, roedd y defnydd o'r gair 'haeddu' yn peri pryder gyda rhai yn mynd cyn belled â dweud ei fod yn amhriodol. Ymhlith yr awgrymiadau o air amgen cryfach y gellid ei ddefnyddio yn ei le roedd 'dylai' neu 'rhaid'.
85. Soniodd nifer o ymatebion yr hoffent weld geiriad y flaenoriaeth hon yn cael ei ehangu i gydnabod nad yw pob gofalwr eisiau parhau i ddarparu gofal. Cyfeiriodd y sylwadau at y ffaith bod y ffordd y mae'r flaenoriaeth wedi ei geirio ar hyn o bryd yn tybio bod pob gofalwr eisiau parhau i ofalu, ond nad oedd hyn yn wir bob ym mhob achos. Gyda hyn mewn golwg, darparwyd nifer o awgrymiadau amgen a fyddai'n ehangu cwmpas y flaenoriaeth hon i bwysleisio y dylai gofalwyr gael dewis ynghylch a yw am ddarparu gofal ai peidio, yn ogystal â'r mathau o ofal y gallant eu darparu neu y maent yn barod i'w darparu.
86. Dywedodd eraill y dylid cryfhau geiriad y flaenoriaeth hon gan gyfeirio at hawliau gofalwyr o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a bod angen adlewyrchu gwerthfawrogiad o ofalwyr a pharch tuag atynt yn well yn y geiriad.
87. I'r rhai nad oeddent yn credu bod angen newid y geiriad, derbyniwyd yn gyffredinol bod y geiriad yn ddealladwy i'r mwyafrif o bobl, yn glir, yn gryno ac yn ddigon eang i gwmpasu pob oedran a nodweddd.

Blaenoriaeth dau - Helpu i fyw yn ogystal â gofalu – rhaid i bob gofalwr gael seibiannau rhesymol o ofalu er mwyn iddynt allu parhau i wneud hynny, ac i gael bywyd eu hunain y tu hwnt i ofalu.

Cwestiwn 10. Ydych chi'n cytuno â'r awgrymiadau uchod?

88. O'r 52 o ymatebion i'r cwestiwn hwn dywedodd y mwyafrif eu bod yn cytuno â'r awgrymiadau a wnaed yn y ddogfen ymgynghori.
89. Mynegodd llawer o ymatebion y farn y gall gofalwyr ystyried bod y term Saesneg 'seibiant' ("respite") yn negyddol. Yr awgrymiadau ar gyfer geiriau eraill y gellid eu defnyddio yn lle 'respite' oedd gwyliau byr, gwasanaeth eistedd a gofal amgen. Ystyriwyd nad yw'r term traddodiadol "seibiant" yn cwmpasu'r ystod eang o gyfleoedd seibiant sydd ar gael. Gall hyn gynnwys darpariaeth mewn cymunedau lleol. Fodd bynnag, roedd rhai yn pryderu y gallai dod â defnydd o'r term hwn i ben mewn rhai

lleoliadau adael y mathau o seibiant a ddarperir, yn agored i'w dehongli gan awdurdodau lleol a byddai hyn yn cael effaith negyddol ar ofalwyr. Byddai unrhyw newid yn y derminoleg hefyd yn gofyn am ddealltwriaeth glir ymhlith gofalwyr, darparwyr ac yn ehangach. Awgrymwyd newid pwyslais, fel bod 'seibiant' yn cael ei ystyried yn weithgaredd cadarnhaol ac ataliol, nid dim ond rhywbeth a gynigir ar adeg o argyfwng i'r gofalwr.

90. Nododd sawl ymateb fod gofalwyr fel arfer yn ystyried mai eu cyfrifoldeb hwy yw gofalu am eu hanwyliaid, a all arwain at amharoddrwydd i fanteisio ar gyfleoedd seibiant. Gyda chyflyrau fel dementia, mae'r rhai â dementia yn aml yn dod yn bryderus ar ôl bod i ffwrdd oddi wrth eu gofalwr neu brofi newid yn eu trefn arferol, gan wneud y gofalwr yn amharod i ddefnyddio gofal seibiant. Er y gallai helpu'r gofalwr i gael egwyl, mae'r ddarpariaeth seibiant yn cael effaith aflonyddgar a negyddol ar y sawl sy'n derbyn gofal.
91. Dywedwyd nad cyfrifoldeb adrannau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol yw gofal seibiant bob tro, ac dylid helpu gwasanaethau a sectorau eraill i gydnabod lle y gallant ddarparu'r math o egwyl sydd ei angen ar ofalwr. Mynegwyd cryn gefnogaeth i sicrhau y gall gofalwyr a theuluoedd gymryd egwyl gyda'i gilydd. Soniwyd am y gwahanol ffyrdd o ddarparu gwyliau byr, a'r cynllun "Respitality" sy'n gweithredu yn yr Alban, fel enghreifftiau i sefydliadau Cymru ddatblygu dulliau mwy arloesol o ddylunio a darparu gofal seibiant i ofalwyr, yn ogystal â'r rhai y maent yn gofalu amdanynt.
92. Nodwyd bod angen cyfnodau egwyl hwy a mwy rheolaidd ar rai gofalwyr, nid yn unig fel rhywbeth sy'n angenrheidiol ar gyfer eu llesiant eu hunain, ond fel cyfle i ddatblygu eu gwytnwch a pharhau yn eu rôl ofalu. Ystyriwyd bod osgoi mabwysiadu un dull sy'n addas i bawb yn bwysig, gan roi gofalwyr a'u teuluoedd wrth wraidd penderfyniadau. Felly dylid disgwyl i awdurdodau lleol weithio gyda gofalwyr a theuluoedd i ganfod atebion addas a pheidio â disgwyl i bobl dderbyn gwasanaethau sy'n bodoli eisoes os ydynt yn anaddas ar eu cyfer.
93. Er bod y ffocws mwyaf ar oedolion sy'n ofalwyr, nodwyd bod gofal seibiant a gwyliau byr yn rhan allweddol o'r gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen ar ofalwyr ifanc. Galwyd am asesiadau a chynlluniau cymorth i sicrhau bod gofal seibiant a gwyliau byr yn cael eu cynnwys yn y rhain, a bod pawb yn glir pwy sy'n gyfrifol am ddarparu ac ariannu'r gofal seibiant. Yn bwysicaf oll dylid sicrhau bod y gofalwr ifanc neu'r gofalwr sy'n oedolyn ifanc yn chwarae rhan lawn mewn penderfyniadau am eu hanghenion a'u gofal seibiant.
94. Cyfeiriodd sawl ymateb at Daliadau Uniongyrchol, a mynegwyd cefnogaeth i ddefnyddio'r rhain yn fwy creadigol i sicrhau eu bod yn cael effaith ar wella gwytnwch a llesiant gofalwyr. Cafwyd nifer o sylwadau gan ofalwyr unigol yn dweud nad yw awdurdodau lleol yn deall Taliadau Uniongyrchol ac y dylid annog defnydd mwy arloesol o'r taliadau hyn. Fodd bynnag, dylai fod eglurder rhwng defnyddwyr Taliadau Uniongyrchol, a chafwyd sylw yn nodi bod y rhain yn cael eu dyfarnu o ganlyniad i asesiad o anghenion ar gyfer person sy'n derbyn gofal, nid y gofalwr.

Cwestiwn 11. A oes unrhyw beth arall y dylem ei wneud i helpu pobl i fyw yn ogystal â gofalu?

95. Atebodd 57 o bobl a sefydliadau y cwestiwn hwn gan gynnig nifer o wahanol syniadau a chynigion a allai helpu pob gofalwr i gael ei fywyd ei hun ochr yn ochr â'i gyfrifoldebau gofalu.
96. Roedd yr awgrymiadau am ofal seibiant ac egwyl o ofalu yn cynnwys dysgu at ddibenion diddordeb personol a hamdden, gyda darparwyr addysg yn cynnig gostyngiadau i ofalwyr ar ffioedd cyrsiau. Gallai cerdyn campfa gofalwyr ddarparu

gostyngiadau mewn camfeydd cadwyn cenedlaethol neu gyfleusterau hamdden sy'n eiddo i'r cyngor neu alluogi gofalwyr i brynu beic am bris gostyngol, i helpu gyda ffitrwydd. Roedd cael mynediad am ddim at gyfleusterau hamdden a gostyngiadau lleol, trafndiaeth gyhoeddus am ddim, a gwybodaeth am grwpiau cymunedol lleol sy'n cynnig dosbarthiadau e.e. ioga, yn enghreifftiau lle y gallai gofalwyr gael budd cadarnhaol i'w hiechyd a'u llesiant eu hunain, yn ogystal â rhoi egwyl iddynt.

97. Awgrymodd sawl un y byddai annog mwy o ofalwyr i fanteisio ar Daliadau Uniongyrchol yn arwain at fanteisio. Gallai gwneud Taliadau Uniongyrchol yn fwy hyblyg o ran y dibenion y gellir eu defnyddio, lleihau biwrocratiaeth, ynghyd â chanllawiau cliriach i awdurdodau lleol ynghylch eu defnyddio olygu y gall awdurdodau lleol ac eraill ddarparu atebion mwy hyblyg a chreadigol.
98. Ystyriwyd bod y syniad o sesiynau 'gofal seibiant' hyblyg yn ddefnyddiol, gyda gofalwyr yn gallu cael egwyl o'u rôl ofalu yn gyflym a gwneud hynny'n fwy rheolaidd. Gallai hyn helpu llawer o ofalwyr i fynychu apwyntiadau ad hoc, neu gael egwyl heb ei drefnu ymlaen llaw yn gyflym ar yr adeg pan fydd ei hangen arnynt.
99. Cododd nifer fawr o sefydliadau asesiadau o anghenion gofalwyr gydag arolygon o ofalwyr yn dangos nad oedd llawer o ofalwyr wedi cael asesiad Gofalwr, nac adolygiad o'u hasesiad yn ystod y 12 mis diwethaf. Cydnabuwyd nad oes angen nac eisiau asesiad o anghenion gofalwyr statudol ar bob gofalwr, ond dylai pob gofalwr wybod sut i gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arno wrth i'w amgylchiadau newid.
100. Pwyntiau eraill a godwyd mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn, yr ystyriwyd eu bod yn ddefnyddiol oedd: deddfwriaeth i alluogi gofalwyr i gael amser o'r gwaith i fynd i apwyntiadau meddygol; a gwella hawliau cyfreithiol i ofalwyr di-dâl yn y gweithle.

Cwestiwn 12. Sut y gallwn ni wella'r cymorth seicolegol sy'n cael ei ddarparu i ofalwyr?

101. Cafwyd 63 o ymatebion i'r cwestiwn hwn ac ysgogodd nifer fawr o ymatebion manwl, gydag ystod o awgrymiadau ar sut y gellid gwella cymorth seicolegol. Gwella sut mae gofalwyr yn cael eu hadnabod oedd y cam cyntaf.
102. Ystyriwyd bod gwelliannau i gymorth ataliol yn hanfodol er mwyn osgoi gofalwyr rhag wynebu argyfwng o ran eu hiechyd meddwl a'u llesiant eu hunain. Roedd yr opsiynau ar gyfer gwella a awgrymwyd yn cynnwys cysylltu'n rheolaidd i wirio bod popeth yn iawn neu alwadau lles rheolaidd, sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar, a chyfarfodydd rheolaidd grwpiau cymorth cymheiriaid.
103. Awgrymwyd cynnydd mewn cyllid i'r sector gofal iechyd sylfaenol a'r trydydd sector fel ffordd i ateb y galw cynyddol am wasanaethau iechyd meddwl a llesiant. Roedd galwadau am ragor o fuddsoddi a phecynnau cymorth cynaliadwy ar gyfer opsiynau lleol, er enghraifft canolfannau gofalwyr lleol sy'n aml yn darparu gwasanaethau cwnsela a chyfeillio.
104. Un gwelliant allweddol a grybwyllwyd yn aml yn yr ymatebion oedd sicrhau bod y gwasanaethau a oedd yn cael eu cynnig yn fwy amrywiol ac wedi'u teilwra i anghenion ac amgylchiadau unigol y gofalwr. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i ofalwyr ifanc, rhieni sy'n ofalwyr a'r rhai sy'n gofalu am bobl â chyflyrau penodol fel dementia neu broblemau iechyd meddwl. Ymhlith yr awgrymiadau ar sut y gellid cyflawni hyn roedd sicrhau bod anghenion cymorth seicolegol yn cael eu nodi yn ystod asesiadau o anghenion gofalwyr, a mwy o ffocws ar gytuno gyda'r gofalwr sut y gellir diwallu eu hanghenion.

105. Yn olaf, credai rhai fod cyfle i ddysgu o'r ffyrdd amgen o ddarparu cymorth yr oedd gwasanaethau lleol wedi'u mabwysiadu mewn ymateb i'r pandemig, megis cyfleoedd i gael gwasanaeth cwnsela ar-lein. Gallai ymchwilio i enghreifftiau newydd o arfer da arwain at welliannau o ran darparu gwasanaethau seicolegol nawr ac yn y dyfodol.

Cwestiwn 13. Pa fathau o ofal seibiant ydych chi'n eu defnyddio neu'n eu darparu fel arfer? Sut mae Covid-19 wedi effeithio ar eich gwasanaethau seibiant?

106. Cafwyd 52 o ymatebion i'r cwestiwn hwn a thema allweddol ymhlith yr ymatebion gan ofalwyr unigol oedd yr anallu i gael gafael ar wasanaeth seibiant, neu bod cymorth wedi cael ei atal o ganlyniad i Covid. Nododd mwyafrif yr atebion fod y pandemig yn cael effaith niweidiol sylweddol ar ofalwyr o bob oed, gyda chymorth a gweithgareddau wyneb yn wyneb wedi'u hatal oherwydd yr angen i ddiogelu iechyd pawb, ac oherwydd bod lefelau amrywiol o gyfyngiadau lleol neu genedlaethol.
107. Mewn amgylchiadau mwy arferol mae unigolion yn defnyddio ystod o wahanol fathau o wasanaethau seibiant ac egwyl. Mae'r rhain yn amrywio o ddefnyddio canolfannau dydd i wasanaethau cyfeillio, grwpiau gweithgareddau cymunedol lleol, dosbarthiadau fel dosbarthiadau celf neu gymryd rhan mewn chwaraeon. Roedd cymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau lleol mewn neuaddau pentref a chanolfannau cymunedol yn cael eu hystyried yn ffordd gadarnhaol o gymryd egwyl o ofalu. O ran gofalwyr sy'n rhieni ac yn gofalu am blant a chanddynt gyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd, neu oedolion sy'n cael gofal diwedd oes, soniwyd bod hosbisau'n darparu gofal dydd pwysig i unigolion, yn ogystal â chynnig rhywfaint o ofal seibiant i'w gofalwyr.
108. Mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol neu fyrdau iechyd mae cronfa gofalwyr di-dâl wedi galluogi gofalwyr i wneud gwahanol bethau i wella eu llesiant er enghraifft, mynd ar deithiau dros y penwythnos, neu mae gofalwyr wedi defnyddio'r cronfeydd hyn i ddilyn hobiau a diddordebau newydd, er enghraifft garddio neu baentio, sy'n darparu mathau o seibiant.
109. Roedd gofal seibiant i'r rhai ag anghenion gofal a chymorth hefyd ar gael drwy gartrefi gofal, er bod arosiadau dros nos mewn cartrefi gofal wedi bod yn gyfyngedig iawn yn ystod y pandemig, oni bai bod yr unigolyn neu ei ofalwr yn wynebu argyfwng. Cynigion eraill gan sefydliadau sy'n cynnwys y trydydd sector oedd ymweliadau byr yn ystod y dydd â chartrefi pobl. Roedd rhai gofalwyr wedi gwneud mwy o geisiadau am ofal seibiant yn ystod y dydd i'r rhai y maent yn gofalu amdanynt, wrth i bobl geisio osgoi cael eu derbyn i'r ysbyty.

Cwestiwn 14. A ddylid newid geiriad presennol Blaenoriaeth Dau? Os felly, sut?

110. O blith y 45 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion o blaid newid geiriad Blaenoriaeth Dau. Mewn llawer o achosion roedd yr ymatebion yn cytuno ag ysbryd y flaenoriaeth hon ond yn teimlo ei bod yn rhy amwys fel y mae wedi'i geirio ar bryd. Teimlwyd bod angen diffiniadau cliriach o'r termau a ddefnyddiwyd. Gallai hyn arwain at well dealltwriaeth o'r diben, ac felly gweithredu'r flaenoriaeth yn well. Er enghraifft, gwnaeth llawer o ymatebion sylwadau ar y term 'seibiannau rhesymol' ac awgrymu y dylid ei ddiffinio'n fwy penodol er mwyn ei atal rhag cael ei ddehongli'n wahanol.
111. Yn yr un modd, roedd rhai ymatebion yn cwestiynu'r term 'y tu hwnt i ofalu' ac yn nodi y gallai achosi dryswch pe bai hyn yn cael ei ddehongli fel bywyd ar ôl i'r rôl ofalu ddod i ben. Awgrymwyd cael bywyd 'yn ogystal â gofalu' fel dewis arall. Fodd bynnag, awgrymodd eraill y dylid ystyried bywyd ar ôl gofalu fel rhan o'r daith ofalu.

112. Yn gysylltiedig â hyn roedd y thema ansawdd bywyd a llesiant. Roedd llawer o sylwadau yn tynnu sylw at y ffaith y dylai bywyd y tu hwnt i ofal neu yn ogystal â gofalu roi boddhad a hyrwyddo llesiant, ac y dylai geiriad y flaenoriaeth hon adlewyrchu'r dyhead hwnnw.
113. Tynnodd nifer fach o ymatebion sylw at y ffaith nad oedd y gair 'rhaid' yn briodol gan nad oedd yn ystyried efallai na fyddai pob gofalwr yn derbyn nac eisiau egwyl. Awgrymwyd y dylid ehangu hyn i 'rhaid cynnig'.
114. I'r rhai nad oeddent yn credu bod angen newid y geiriad, derbyniwyd yn gyffredinol bod y geiriad yn glir, yn gryno ac yn ddigon eang i gwmpasu pob oedran a nodwedd.

Blaenoriaeth tri - Darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i ofalwyr – Mae'n bwysig bod gofalwyr yn cael yr wybodaeth a'r cyngor cywir yn ôl yr angen ac mewn fformat priodol.

Cwestiwn 15. Ydych chi'n cytuno â'r camau a awgrymir uchod?

115. O blith y 48 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif yn cytuno â'r camau gweithredu a awgrymwyd. Mae cefnogaeth barhaus i Flaenoriaeth 3 a phwysigrwydd sicrhau bod pob gofalwr yn gallu cael gafael ar y wybodaeth, y cyngor a'r cynhorthwy cywir ar yr adeg gywir.
116. Galwodd nifer o ymatebion am godi mwy o ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr ieuchyd proffesiynol, gofal cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill, fel y gallant hysbysu a chynghori gofalwyr ac egluro'r hyn y gall y gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy hyn ei gynnig. Dylai'r hyfforddiant hwn hefyd gael ei gynnal yn sefydliadau'r trydydd sector, y llywodraeth a sefydliadau eraill i sicrhau bod pob gofalwr yn ymwybodol o'u hawliau cyfreithiol a'r cymorth sydd ar gael os oes angen.
117. Roedd awgrymiadau ymarferol yn cynnwys sicrhau bod yr wybodaeth, cyngor a chynhorthwy a ddarperir gan feddygon teulu, neu mewn lleoliadau ieuchyd a gofal, yn cael eu gwella. Er y gall fod amrywiadau lleol mewn gwasanaethau, dylai'r wybodaeth a ddarperir gan gyrff statudol fod yn gyson ledled Cymru. Ni ddylai gofalwyr deimlo fel bod 'loteri cod post' ar waith.
118. Un pwynt a godwyd gan nifer fach o sefydliadau'r sector cyhoeddus oedd yr angen i wella dealltwriaeth ehangach ymhlith y cyhoedd a sefydliadau, o rôl gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy wrth gefnogi gofalwyr, yn ogystal â'r dyletswyddau cyfreithiol ar awdurdodau lleol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014 yn ymwneud â gwybodaeth, cymorth a chynhorthwy. Fe wnaethant nodi na fydd angen gwasanaethau cymorth ffurfiol, nac asesiad o anghenion gofalwyr, ar lawer o ofalwyr, ac nid oes angen i ofalwyr gael asesiad o'r fath er mwyn cael mynediad at wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy a chael help ganddynt. Mae hyn yn golygu y bydd llawer o ofalwyr sy'n cael cymorth gan awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector, gwasanaethau ieuchyd ac eraill, nad oes angen asesiad o anghenion gofalwyr arnynt ac na fyddant yn cael hynny.
119. Cyfeiriodd nifer bach o ymatebwyr at fynediad at wasanaethau eiriolaeth, gan nodi eu bod yn bwysig mewn sawl sefyllfa i ofalwyr hŷn a gofalwyr ifanc ac y gallant helpu gofalwyr i gael gafael ar wybodaeth, helpu'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd cael gafael ar wasanaethau, neu'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd siarad am eu problemau.

Cwestiwn 16. A oes unrhyw beth arall y dylem ei wneud i wella gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yng Nghymru?

120. Cafwyd 52 o ymatebion i'r cwestiwn hwn ac ailadroddodd nifer eu hatebion i gwestiynau blaenorol, er enghraifft, galwadau i wella'r defnydd o gronfa ddata DEWIS, gwella ei chynnwys a sicrhau bod y wefan yn gysylltiedig â llwyfannau ar-lein eraill.
121. I lawer o ofalwyr gall fod dryswch ynghylch ble i ddechrau os ydynt eisiau mwy o wybodaeth a help gyda'u cyfrifoldebau gofalu. Codwyd y ffaith nad oes gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy cyffredinol ledled Cymru, felly mae'r enwau a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau o'r fath yn amrywio yn ôl awdurdod lleol. Efallai na chyfeirir at rai fel gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy ac nid yw rhai awdurdodau'n defnyddio Pwynt Mynediad Sengl fel canolfan alwadau ffôn. Ar ôl i ofalwr gysylltu, fodd bynnag, amlygwyd pwysigrwydd staff yn gwrando ar y gofalwr a dylai gwasanaethau o'r fath wneud mwy na chyfeirio gofalwyr at sefydliadau, dylent hefyd atgyfeirio gofalwyr at wasanaethau a chymorth perthnasol.
122. Dylid mynd i'r afael â thybiaethau mai dim ond gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol sy'n darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn unol â'r argymhelliad mewn un ateb. Ystyriwyd bod hyn yn bwysig pan allai sefydliadau sy'n cyfeirio gofalwyr at yr awdurdod lleol fod mewn sefyllfa well i roi gwybodaeth i'r gofalwr. Os nad yw'r angen yn ymwneud â gofal cymdeithasol, ac i lawer o ofalwyr nid oes angen cymorth gwasanaethau cymdeithasol ffurfiol arnynt, efallai y bydd cyrff eraill yn gallu darparu gwybodaeth a chynngor addas yn uniongyrchol. Dylai'r ystod o wybodaeth, cyngor a chynhorthwy a gwmpesir hefyd fod yn fwy cynhwysfawr, er enghraifft, cyngor ar yr hyn sy'n digwydd os bydd gofalwr yn sâl neu'n marw, pwnc y mae llawer o bobl yn ei gael yn anodd ac yn bryderus i'w ystyried a'i drafod. Felly awgrymwyd mynediad at wybodaeth am Gynllunio Gofal o Flaen Llaw sy'n haws ei defnyddio.
123. Galwyd am fwy o gymorth i'r trydydd sector sy'n gweithio mewn partneriaeth â thimau gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy y sector cyhoeddus, a dylid darparu hyfforddiant sefydlu i weithwyr ar wasanaethau eirioli fel bod gweithwyr rheng flaen yn gallu adnabod pryd y gallai eiriolwr gefnogi rhywun.
124. O ystyried pwysigrwydd gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i ofalwyr, cyfeiriodd nifer bach o ymatebion yn benodol at yr angen i sicrhau bod yr holl wybodaeth ar gael mewn fformatau ac ieithoedd y gall pobl eu deall a'u defnyddio. Mae hyn yn cynnwys dyletswyddau ar sefydliadau cyhoeddus, gan gynnwys cyrff iechyd, i fodloni gwahanol ofynion deddfwriaethol megis cydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

Cwestiwn 17. Beth rydyn ni wedi'i ddysgu gan Covid-19 a'r angen i sicrhau bod gofalwyr yn cael gwybodaeth hygyrch mewn cyfnod byr o amser?

125. Cafwyd 53 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Mae'r ymatebion a ddarparwyd, yn enwedig gan sefydliadau, yn nodi'r pwysau a'r angen i feddwl o'r newydd ac ymateb yn gyflym i amgylchiadau newidiol y pandemig. Darparwyd enghreifftiau fel pwysigrwydd cael gwybodaeth i ofalwyr a'r cyhoedd yn gyflym, a helpodd ofalwyr i gael gafael ar gymorth cymunedol i gael parseli bwyd, cymorth gyda siopa a chasglu presgripsiynau.
126. Amlygwyd bod defnyddio gwahanol ffyrdd o gyfathrebu yn bwysig iawn, ond hefyd gan ystyried y bobl hynny sydd wedi'u hallgáu yn ddigidol ac sydd angen cymorth i fynd ar-lein, neu sy'n cael cymorth drwy ddulliau traddodiadol megis drwy'r post a thros y ffôn.

Roedd awgrym y byddai awdurdodau lleol sydd â chyflenwad o gyfarpar TG i'w fenthg i ofalwyr a phobl ag anghenion gofal, yn ddefnyddiol.

127. I ormod o ofalwyr fodd bynnag, roedd dryswch yn cael ei achosi gan sylw yn y wasg genedlaethol ac ar y teledu, gyda llawer o ofalwyr yn teimlo'n unig ac yn cael eu gadael i ymdopi ar eu pen eu hunain, o ystyried y ffocws proffil uchel ar wasanaethau'r GIG. O ran siaradwyr Cymraeg a'r rhai nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, roedd anfodlonrwydd ei bod yn ymddangos bod gwybodaeth yn cael ei darparu yn Saesneg yn unig a'i diweddarau ar y teledu neu'r cyfryngau cymdeithasol, heb ddefnyddio dulliau mwy lleol wedi'u targedu.
128. Cafodd cyflwyno gwasanaethau cymorth newydd dros y ffôn yn gyflym, neu ehangu llinellau cymorth presennol gan gyrrff cyhoeddus a sefydliadu trydydd sector effaith gadarnhaol ar ofalwyr, a'u gallu i gael gwybodaeth, cyngor a help perthnasol o ansawdd da. Adolygodd sefydliadau'r trydydd sector ganllawiau ffurfiol gan Lywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac eraill, gan eu troi'n wybodaeth fyrrach a hawdd ei deall i ofalwyr di-dâl a defnyddwyr gwasanaethau. Yn y ffordd hon fe wnaethant sicrhau bod y wybodaeth fwyaf hanfodol yn cael ei rhannu.
129. Roedd sylwadau mwy beirniadol a wnaed am gyfathrebu yn ystod y pandemig yn cynnwys ei bod wedi cymryd gormod o amser i Lywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth i awdurdodau, a achosodd oedi i sefydliadau eraill wrth ddarparu gwybodaeth i ofalwyr. Rhaid i wybodaeth fod mewn iaith sy'n ddealladwy ac mewn lleoedd sy'n hygyrch, ac roedd yn rhaid i ofalwyr o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a'u teuluoedd aros i wybodaeth gael ei chyfieithu.
130. Dau bwynt olaf a grynhoir yma yw galwadau i'r holl ddeunydd cyfathrebu ystyried gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr a bod ar gael yn gyflym, oherwydd mae angen mynediad cyflym arnynt hwythau hefyd at wybodaeth sy'n newid yn gyflym a chanllawiau swyddogol.

Cwestiwn 18. A oes gennych enghreifftiau o arfer da yn ystod y pandemig y gellid eu hefelychu neu a allai lywio datblygiad gwasanaethau?

131. Cafwyd 55 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Ymhlith ymatebion gan ofalwyr unigol roedd cymysgedd o safbwyntiau, ond rhoddodd nifer ohonynt ddisgrifiad cryno o sut roedd gweithiwr cymdeithasol, gweithwyr gofal, staff iechyd, meddygon teulu neu eraill wedi darparu cefnogaeth a chymorth cadarnhaol. I'r mwyafrif, deilliodd eu profiad cadarnhaol o'r ffaith bod rhywun yn gwneud yr ymdrech i gysylltu â'r gofalwr, gofyn sut yr oedd yn teimlo, a oedd angen help arno, er enghraifft, gyda siopa, neu fod yno ar ben arall y ffôn i wrando arno. Canfu adborth gan y rhai a oedd yn gweithio gyda gofalwyr ifanc fod galwadau ffôn rheolaidd yn gwneud gwahaniaeth, gan alluogi'r gofalwr i deimlo'n gysylltiedig a galluogi gweithwyr proffesiynol i ymateb i unrhyw faterion a mynd i'r afael â hwy yn gyflym.
132. I lawer o ofalwyr, mae methu â chael gafael ar fathau mwy arferol o ofal seibiant o ddydd i ddydd ac egwyl o ofalu wedi cael effaith negyddol sylweddol ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant. Ymhlith ymatebion sefydliadau'r sector cyhoeddus roedd enghreifftiau yn dangos sut roedd eu gweithwyr wedi darparu gwahanol gyfleoedd ar-lein fel dosbarthiadau coginio. Gwelwyd manteision i ofalwyr lle roedd staff wedi cael cyfle i gynllunio a threfnu gweithgaredd a allai helpu i hybu iechyd meddwl a llesiant gofalwr.
133. Dywedodd sefydliadau'r sector cyhoeddus fod sefydlu perthynas waith agosach ag ystod eang o wahanol sefydliadau, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau i ofalwyr a

gomisiynwyd ganddynt, wedi arwain at fanteision i'r ddwy ochr yn ystod y pandemig o ran darparu gwasanaethau i ofalwyr.

134. Budd allweddol a welwyd mewn sefydliadau mawr oedd sicrhau bod gan eu gweithwyr fwy o wybodaeth a gwybodaeth well am yr ystod o gymorth sydd ar gael i ofalwyr. Mewn un bwrdd iechyd lleol sicrhawyd bod copïau papur a fersiynau ar-lein o gyfeiriadur gwybodaeth gofalwyr y bwrdd iechyd yn cael eu cylchredeg. Sefydlodd bwrdd iechyd lleol arall systemau i ofalwyr gael cyfarpar diogelu personol a phrofion Covid. Fe wnaethant hefyd drefnu i'w timau Gwasanaethau Gwirfoddol a Deietegydd lunio a darparu parseli bwyd i ofalwyr sy'n byw mewn tldi.
135. Cyfeiriodd nifer o sefydliadau at eu darpariaeth o becynnau llesiant i ofalwyr a gofalwyr ifanc a oedd yn cynnwys llawlyfrau a chanllawiau i ofalwyr wedi'u diweddarau, dolenni ar gyfer cyngor cywir ar Covid 19 ac awgrymiadau ar gynnal llesiant meddyliol. Mewn un enghraifft, creodd awdurdod lleol gronfa ddata o'r holl siopau a banciau bwyd sy'n gweithredu gwasanaethau amgen a gwasanaeth dosbarthu bwyd mewn dinas. Amlygwyd cydgysylltu â gwasanaethau ymateb wedi'u harwain gan y sector gwirfoddol a phartner trydydd sector fel enghraifft o wella cymorth i ofalwyr, drwy gysylltu gwasanaethau statudol â sefydliadau sy'n darparu gwahanol fathau o gymorth yn y gymuned.

Cwestiwn 19. A ddylid newid geiriad presennol blaenoriaeth tri? Os felly, sut?

136. O blith y 42 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, nododd y rhan fwyaf o'r ymatebion eu bod o blaid newid geiriad Blaenoriaeth Tri, gyda nifer o ymatebion yn cynnig y dylid disodli 'cael' â 'cael mynediad i', i adlewyrchu y dylai gofalwyr gael dewis ynghylch a ddylid cael gwybodaeth ai peidio. Awgrymodd eraill y dylid rhoi mwy o bwyslais ar 'bob' gofalwr, a hefyd y dylid newid 'mae'n bwysig' i 'mae'n hanfodol'.
137. I'r rhai a oedd o'r farn y dylid ehangu'r geiriad presennol, roedd yr awgrymiadau'n cynnwys ychwanegu 'y cymorth cywir ar yr amser cywir' neu 'mewn modd amserol', i bwysleisio'r angen i sicrhau bod gofalwyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt pan fydd ei hangen arnynt.
138. I rai, roedd sicrhau bod y wybodaeth a'r cyngor yn hygyrch, o ran fformat a'r ffyrdd y cafodd ei chyhoeddi, yn glir ac yn gymesur yn bwyntiau y dylid eu hadlewyrchu'n benodol yng ngeiriad y flaenoriaeth hon.
139. Awgrymodd ymatebion eraill y dylid diweddarau'r geiriad i dynnu sylw at bwysigrwydd y flaenoriaeth hon o ran grymuso gofalwyr i ddefnyddio eu hawliau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Yn gysylltiedig â hyn roedd galwadau am gyfeiriadau cryfach at eiriolaeth a chydgyngyrchu.
140. I'r rhai nad oeddent yn credu bod angen newid y geiriad, derbyniwyd yn gyffredinol bod y geiriad yn briodol, yn glir, yn gryno ac yn ddealladwy.

Blaenoriaeth pedwar - Cefnogi gofalwyr mewn addysg ac yn y gweithle: dylid cefnogi cyflogwyr a lleoliadau addysg / hyfforddiant i addasu eu polisiau a'u harferion gan alluogi gofalwyr i weithio a dysgu ochr yn ochr â'u rôl ofalu.

Cwestiwn 20. Ydych chi'n cytuno â'r geiriad uchod?

141. O blith y 41 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif yn cytuno â'r awgrym i ychwanegu pedwaredd blaenoriaeth newydd, a'r camau gweithredu a awgrymwyd eisoes yn y ddogfen ymgynghori. O ystyried tebygrwydd yr ymatebion i gwestiynau 20 a 21 (a gafodd 51 o ymatebion) fe'u cyfunwyd yn un crynodeb isod.

142. Ystyriwyd bod blaenoriaeth newydd sy'n pwysleisio'r cysylltiadau rhwng addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, a manteision hyn sy'n effeithio ar ofalwyr o bob oed, y potensial i helpu i sicrhau manteision cadarnhaol i ofalwyr a chyflogwyr.

Gofalwyr cyflogedig

143. Cysylltodd nifer o'r atebion y flaenoriaeth newydd arfaethedig â phryderon cymdeithasol ac economaidd ehangach ynghylch cydraddoldeb rhywiol, incwm isel a thlodi. Yn rhy aml mae gofalwyr yn rhoi'r gorau i waith cyflogedig er mwyn darparu gofal. Yn ystod y pandemig mae llawer o bobl wedi cael cyfle i ddarparu mwy o ofal, ond roedd rhai yn ei chael hi'n anodd esbonio i'w cyflogwr fod angen amser o'r gwaith arnynt, er enghraifft i warchod eu hunain ochr yn ochr â'r person y maent yn gofalu amdano. Mae eraill wedi wynebu anawsterau o ran cydbwysu gweithio gartref â'u cyfrifoldebau gofalu.
144. Cafwyd sawl sylw bod y flaenoriaeth newydd yn cyd-fynd â'r egwyddorion gwaith teg a bennwyd gan Gomisiwn Gwaith Teg Cymru, gydag ymrwymadau i annog amgylcheddau gwaith cynhwysol. Roedd hyn yn cynnwys galwad i Lywodraeth Cymru sefydlu fforwm gwaith teg ar gyfer gofalwyr cyflogedig, ac annog cyflogwyr cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector i weithio gyda'u cyflgoeion sydd â chyfrifoldebau gofalu, neu gyda chynrychiolwyr gofalwyr yn y gweithle i lunio polisiau sefydliadol sy'n gyfeillgar i ofalwyr.
145. Roedd effaith blaenoriaeth a champau gweithredu newydd i wella hawliau yn y gweithle i ofalwyr, megis deddfwriaeth arfaethedig llywodraeth y DU i gyflwyno hawl gyfreithiol newydd i bobl gael absenoldeb gofalwyr di-dâl, yn peri pryder y gallai rhai cyflogwyr fel busnesau bach, annibynnol ei chael hi'n anodd rhoi'r newidiadau ar waith yn y pandemig presennol pe bai goblygiadau o ran cost.
146. Canolbwyntiodd yr atebion hefyd ar y ffaith bod angen gwell cymorth a chymorth priodol yn y gweithle. Mae gofalwyr yn gorfod cymryd absenoldeb di-dâl yn rheolaidd neu ddefnyddio eu dyraniad gwyliau blynyddol er mwyn mynd â'r person y maent yn gofalu amdano i'r ysbyty neu i apwyntiadau eraill. Fodd bynnag, awgrymodd rhai atebion fod cyflogwyr yn barod i roi ychydig bach o absenoldeb di-dâl ychwanegol i ofalwyr, ond mae hyn yn golygu bod y gweithiwr yn colli incwm. Awgrymwyd bod cyflogwyr yn edrych ar hawliau gwyliau i'w gweithwyr, ac yn caniatáu i'r rhain gael eu rhannu a'u cymryd fel oriau yn hytrach na diwrnodau cyfan. Gwelwyd bod hyn yn fwy hyblyg a defnyddiol.
147. Disgrifiwyd sut y dylid gwella ymwybyddiaeth o'r anghenion a'r materion sy'n effeithio ar ofalwyr ymhlith cyflogwyr ym mhob sector, ynghyd â darparu gwybodaeth a chyngor iddynt ar sut i fod yn fwy cyfeillgar i ofalwyr. Fodd bynnag, ni ddylid anghofio anghenion gofalwyr hunangyflogedig y mae angen gwybodaeth hygyrch arnynt. Soniwyd am gynllun preseenol Cyflogwyr ar gyfer Gofalwyr Cymru ond ym marn yr ymatebydd, mae'r aelodaeth yn rhy ddrud, yn enwedig i sefydliadau llai. Dylid ystyried dull amgen o gyfrifo taliadau i gyflogwyr. Fodd bynnag, mae eraill o'r farn bod y cynllun hwn yn chwarae rhan bwysig o ran codi ymwybyddiaeth ymysg cyflogwyr, gan roi'r cymorth sydd ei angen arnynt i fod yn fwy cefnogol i'w gweithwyr eu hunain.
148. Codwyd y gallu i hawlio Lwfans Gofalwyr fel problem i lawer o ofalwyr oherwydd y meini prawf cymhwysra. Ni all gofalwyr gael Lwfans Gofalwyr os ydynt ar gwrs addysg llawnamser, neu hyd yn oed os yw cwrs yn rhan-amser ond bod angen bod yn bresennol am 21 awr neu fwy yr wythnos. Yn ogystal ag effeithio ar oedolion ifanc sy'n ofalwyr, mae hyn hefyd yn effeithio ar oedolion sy'n dymuno dychwelyd i addysg. Awgrymwyd ymchwilio i sut y gallai'r budd-dal lles hwn gyd-fynd â'r gallu i hyfforddi'n

rhan-amser er mwyn gwella rhagolygon cyflogaeth, a allai hefyd fod o fudd i sefydliadau bach. Gellid annog y rhain i roi polisïau cyfeillgar i ofalwyr ar waith yn eu gweithle, a fyddai'n galluogi eu gweithwyr i ddysgu sgiliau newydd neu wella eu sgiliau presennol.

149. Camau gweithredu eraill a awgrymwyd ac yr ystyriwyd bod ganddynt y potensial i wella'r sefyllfa ar gyfer gofalwyr cyflogedig oedd:

- Annog cyflogwyr i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o ofalwyr i'w staff gofalu;
- Llywodraeth Cymru i annog cyflogwyr yng Nghymru i gyflwyno eu polisïau eu hunain sy'n cynnwys hawliau i weithwyr gymryd absenoldeb gofalwyr â thâl;
- peidio â mabwysiadu 'dull un ateb sy'n addas i bawb' ar gyfer datrysiadau yn y gweithle;
- gwneud gwaith codi ymwybyddiaeth gyda busnesau preifat, nad ydynt efallai'n deall yr achos busnes dros gadw gofalwyr ymhlith eu gweithlu;
- darparu cymorth i ofalwyr sy'n dychwelyd i waith cyflogedig ar ôl cyfnod yn darparu gofal, gan fod angen cymorth ar lawer ohonynt i fagu hyder, diweddarau eu sgiliau, a chydabod eu sgiliau trosglwyddadwy;
- cydnabod bod addysg a chyflogaeth yn bwysig o ran cadw gofalwyr yn iach a rhoi hunaniaeth iddynt y tu hwnt i'w rôl fel gofalwr;
- darparu darpariaeth fwy fforddiadwy a hyblyg a all gynorthwyo gofalwyr i aros mewn gwaith a chymbwysu eu cyfrifoldebau gofalu;
- Llywodraeth Cymru yn sefydlu cronfeydd i gynorthwyo gofalwyr sy'n dymuno ailhyfforddi neu ailsgilio ochr yn ochr â'u rôl ofalu neu ar ôl gorffen;
- asesiadau o anghenion gofalwyr yn ystyried dymuniadau'r gofalwr ynghylch aros mewn cyflogaeth ai peidio, a chael cyfleoedd ar gyfer addysg, hyfforddiant a hamdden;
- polisi gan Lywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau sy'n manteisio ar arian y llywodraeth i ehangu eu busnes neu i greu busnesau newydd weithredu polisïau sy'n gyfeillgar i ofalwyr a monitro cydraddoldeb yn eu gweithle i sicrhau nad yw gofalwyr dan anfantais ac na wahaniaethir yn eu herbyn.

Gofalwyr Ifanc a Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc

150. Soniwyd am gyfnodau pontio allweddol ym mywyd gofalwr ifanc ac oedolyn ifanc, er enghraifft, symud i addysg ôl-16. Mae angen i brosesau fod ar waith i sicrhau y darperir cymorth yn ddidrafferth wrth i'r gofalwr ifanc bontio i fod yn ofalwr sy'n oedolyn ifanc, p'un a yw'n aros mewn addysg neu'n chwilio am waith. Efallai y bydd gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn ei chael hi'n anodd chwilio am swydd, a chael swydd, felly tynnodd yr ymatebion sylw at bwysigrwydd gwybodaeth a chymorth. Mae angen gwella hyn, yn enwedig pan fydd gofalwyr ifanc yn ystyried eu hopsiynau ar ôl ysgol ac efallai eu bod yn teimlo bod y rhain wedi'u cyfyngu gan eu rôl ofalu. Hefyd, dylid gwella cymorth i'r rhai sy'n dymuno mynd ymlaen i addysg uwch fel y gallant barhau â'u rôl ofalu tra byddant yn astudio.

151. Ystyrir bod awdurdodau lleol yn chwarae rhan allweddol wrth annog ysgolion i nodi a chefnogi gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr ledled Cymru. Mae gormod o anghysondeb, gyda rhai ysgolion a lleoliadau addysg yn cymryd mwy o gamau i helpu gofalwyr ifanc nag eraill. Ystyriwyd bod nodi gweithiwr arweiniol â chyfrifoldeb am

ofalwyr ifanc yn rhoi proffil i'r agenda gofalwyr ifanc mewn ysgolion. Nodwyd bod angen cymorth gan rwydwaith o weithwyr datblygu Gofalwyr Ifanc hefyd i sicrhau bod gan arweinwyr ysgol fynediad at wybodaeth ac adnoddau hyfforddi.

152. Er y rhoddwyd pwys mawr ar bwysigrwydd rôl yr ysgol wrth gefnogi gofalwyr ifanc, gydag athrawon ysgol a staff eraill yr ysgol yn gallu darparu cymorth ac ymyriadau cadarnhaol, mae risg o hyd na fydd gofalwr ifanc yn cyflawni ei botensial. Argymhellwyd dull teulu cyfan, gyda mwy o gymorth i deuluoedd ymgysylltu â gwasanaethau a chael mynediad at asesiadau o anghenion gofalwyr. Awgrymwyd dull "tîm o amgylch y gofalwr" i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r gofalwr ifanc yn gallu rhannu gwybodaeth yn briodol a bod y gofalwr ifanc yn cael ei gefnogi mewn ffordd gyfannol.
153. Roedd argymhellion eraill a gyflwynwyd yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cynnwys: ymgorffori ymwybyddiaeth o ofalwyr fel rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol; ac annog ysgolion, colegau, gwasanaethau gofalwyr ifanc, sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector i weithio gyda'i gilydd a mabwysiadu'r cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr i gefnogi gofalwyr ifanc
154. Cyfeiriwyd at bwysigrwydd galluogi pob gofalwr i gael gafael ar wasanaethau a'u defnyddio yn eu hiaith gyntaf. Dylai cymorth i ofalwyr ifanc fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae angen sicrhau bod hynny ar gael. Dylai llawer o bobl ifanc sy'n cael addysg Gymraeg fod â disgwyliad rhesymol y byddai cymorth ac adnoddau ar gael iddynt drwy gyfrwng y Gymraeg, ble bynnag y bôn.

Cwestiwn 21. A oes unrhyw beth arall y dylem ni ac eraill ei wneud i gefnogi gofalwyr o bob oed mewn addysg a chyflogaeth? A oes gennych enghreifftiau o arfer da?

155. Cafwyd 51 o ymatebion i'r cwestiwn hwn ac o fewn y rhain cafwyd galwadau i'r agwedd hon ar y cynllun newydd ar gyfer gofalwyr, a phedwaredd blaenoriaeth newydd, gydfynd â'r cynlluniau adferiad cymdeithasol ac economaidd ar ôl Covid. Roedd yr argymhellion ynghylch addysg yn ymestyn y tu hwnt i leoliad yr ysgol i gwmpasu gofalwyr o bob oed, gan gynnwys gofalwyr cyflogedig, sy'n dymuno datblygu eu gyrfaedd neu fynd ymlaen i addysg uwch.
156. I ofalwyr ifanc, roedd enghreifftiau o arfer da yn canolbwyntio ar ddefnyddio ac argymhell cynlluniau presennol sy'n cydnabod ac achredu gofalwyr, gydag ysgolion yn gweithio tuag at gyflawni gwahanol lefelau o achrediad ac yn dangos tystiolaeth i eraill eu bod yn gwella cymorth. Er bod gwaith yn cael ei wneud yn aml gyda phlant ysgolion uwchradd, roedd argymhelliad y dylid gwneud mwy i gefnogi gofalwyr ifanc mewn ysgolion cynradd.
157. Ar wahân i gynlluniau sy'n canolbwyntio ar ysgolion, dangosodd sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus y gwaith yr oeddent yn ei wneud mewn partneriaeth â sefydliadau gofalwyr y trydydd sector i ddatblygu mecanweithiau cymorth a oedd eisoes yn bodoli ar gyfer gofalwyr, er enghraifft, drwy gymryd rhan mewn cynlluniau achredu sy'n gyfeillgar i ofalwyr. Mae'r rhain hefyd yn berthnasol i fusnesau ond rhoddwyd pwyslais ar sicrhau bod cyflogwyr yn gallu cymryd rhan mewn cynlluniau o'r fath am gost isel, neu ddim cost o gwbl. Cyfeiriodd nifer fach o gyrff y sector cyhoeddus at y manteision i'w staff yn sgil cyflwyno Pasbort Gofalwyr, y gallu i ofalwyr wneud cais am "absenoldeb gofalwyr", a hyfforddiant gwytnwch a llesiant.
158. Rhoddodd unigolion a sefydliadau gofalwyr enghreifftiau lle mae cyflogwyr eisoes yn ceisio gwella'r cymorth sydd ar gael drwy wneud addasiadau rhesymol, er enghraifft, i

oriau gwaith dyddiol, gan ganiatáu amser o'r gwaith i'r gofalwr fynd i apwyntiadau, absenoldeb salwch a lleihad dros dro mewn oriau gwaith.

159. Soniwyd am alluogi gofalwyr cyflogedig i gael mynediad at wahanol fathau o addysg, darpariaeth dysgu a hyfforddiant, yn ogystal â gofalwyr sy'n chwilio am waith, neu eu galluogi i wella eu sgiliau yn gyffredinol. Soniwyd am raglen ddysgu ar-lein achrededig Carers UK "Learning for Living" fel man cychwyn.
160. Mewn sylwadau gan y sector addysg, roedd galwad i gysoni â pholisïau eraill Llywodraeth Cymru, a galwad i'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofalwyr fanylu ar sut y bydd y llywodraeth yn gweithio gyda darparwyr addysg uwch ac yn eu cefnogi. Dylai gofalwyr elwa o'r gallu i drosglwyddo credydau a chael cydnabyddiaeth o weithgaredd dysgu blaenorol, os oes angen iddynt roi'r gorau i'w hastudiaethau a dychwelyd atynt yn nes ymlaen, neu o bosibl yn rhan-amser. Awgrymwyd y byddai cynnig cenedlaethol dysgu o bell yn cynnig manteision i fyfyrwyr sy'n ofalwyr er mwyn eu helpu i gydbwysu eu hastudiaethau â'u cyfrifoldebau gofalu. Tynnwyd sylw hefyd at addysg a hyfforddiant ôl-16. Ystyriwyd bod hyn o bosibl yn cynnig manteision ehangach y tu hwnt i ddysgu sgiliau a gwybodaeth newydd. Gall hefyd feithrin hyder, gwynwch a llesiant personol.
161. Wrth ystyried y ddeddfwriaeth ynghylch cymorth i ofalwyr, roedd galwadau am ddyletswydd newydd ar ddarparwyr addysg, i bob ysgol nodi'r gofalwyr ifanc ar y gofrestr ac i ysgolion i fabwysiadu argymhellion gan Estyn i gymryd rhan mewn Buddsoddwyr mewn Gofalwyr a chynlluniau achredu gofalwyr eraill. Dylai anghenion gofalwyr ifanc barhau i gael eu hystyried ochr yn ochr ag anghenion dysgwyr eraill sy'n agored i niwed.
162. Roedd sylwadau eraill yn cynnwys cyllid ar gyfer cymorth un-i-un ar gyfer gofal plant a chynyddu taliadau uniongyrchol i rieni sy'n ofalwyr er mwyn iddynt allu derbyn swydd neu neu gael hyfforddiant. Ffordd allweddol arall o alluogi gofalwyr i aros mewn gwaith neu dderbyn swydd oedd gwella hyblygrwydd darpariaeth a chymorth i'r unigolyn sy'n derbyn gofal. Gallai cael cymorth mwy hyblyg helpu gofalwyr i feddwl am gyflogaeth neu addysg a manteisio arnynt, lle y gallent fod wedi ystyried bod hynny'n amhosibl o'r blaen.

Cwestiwn 22. Sut allwn ni roi gwell cymorth i ofalwyr sy'n ei chael hi'n anodd yn ariannol?

163. Cafwyd 65 o ymatebion i'r cwestiwn hwn a chododd nifer o themâu lle roedd yr ymatebwyr yn teimlo y gallai camau gweithredu gan y llywodraeth, y GIG, gofal cymdeithasol, awdurdodau lleol a mwy, wella sefyllfa ariannol llawer o ofalwyr.
164. Gwelwyd bod angen dybryd i broblemau a rhwystrau tymor hwy gael eu hystyried a'u datrys. Byddai hyn yn arwain at ddull amlasiantaeth o gefnogi gofalwyr a'u teuluoedd, yn ogystal â thrafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth ganolog y DU ynghylch budd-daliadau a lwfansau lles.
165. Soniwyd droeon am fudd-daliadau a lwfansau lles Llywodraeth y DU, gan ganolbwyntio'n benodol ar Lwfans Gofalwyr. Galwyd am newid y meini prawf cymhwystra a galluogi mwy o bobl i hawlio'r lwfans hwn, ynghyd â chynyddu'r swm o arian a delir bob wythnos i o leiaf yr un lefel â'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Lle roedd hyblygrwydd wedi'i gyflwyno i'r meini prawf cymhwystra oherwydd y pandemig, roedd galwadau i gadw hyn. Ystyriwyd bod effaith marwolaeth y sawl sy'n derbyn gofal a'r ffaith bod Lwfans Gofalwyr yn dod i ben ar ôl 8 wythnos yn gyfnod rhy fyr i ofalwr alaru, addasu a dod o hyd i swydd newydd. Dadleuwyd y dylid ymestyn y gallu i

hawlio'r lwfans i hyd at chwe mis. I ofalwyr iau, gellid gwella'r cymorth ar gyfer eu hamgylchiadau drwy ganiatáu i'r rhai mewn addysg am fwy nag 16 awr yr wythnos hawlio'r lwfans. Cafwyd awgrym hefyd y gallai Llywodraeth Cymru ddarparu rhyw fath o ychwanegiad at y lwfans.

166. Roedd cymhlethdodau'r sefyllfa bresennol sy'n wynebu llawer o ofalwyr y mae angen cymorth a chefnogaeth ariannol arnynt yn amlwg o'r ymatebion, o ystyried yr ystod o wahanol daliadau lles, lwfansau, budd-daliadau a gostyngiadau y gallai gofalwr eu hawlio. Roedd oedran gofalwyr yn cael effaith ar hyn hefyd, gyda gofalwyr hŷn yn aml yn ei chael hi'n anodd ymdopi gyda dim ond eu pensiynau fel incwm.
167. Roedd yr awgrymiadau ynghylch yr hyn a allai wella'r sefyllfa i lawer, yn cynnwys y canlynol:
- gwella'r system fudd-daliadau i'w gwneud yn llai cymhleth ac yn haws i bobl wneud cais a chwblhau ffurflenni cais - ystyrir bod y ffurflenni'n rhy hir a chymhleth;
 - darparu cyngor ariannol penodol a chyngor penodol ar fudd-daliadau i ofalwyr;
 - atal y ffaith bod rhywun yn hawlio Lwfans Gofalwr rhag effeithio ar daliadau Credyd Cynhwysol gofalwr a sut y gellid ystyried costau anuniongyrchol neu uniongyrchol y mae gofalwr yn eu hwynebu;
 - gwell mynediad at lwfans gweini;
 - lleihau biliau treth y cyngor;
 - edrych ar fudd-daliadau oedran gweithio a therfynau treth;
 - lwfansau anabledd;
 - ymestyn lwfansau tanwydd gaeaf;
 - cymorth gyda thalu biliau cyfleustodau;
 - cynlluniau grant brys i helpu gofalwyr sy'n wynebu argyfwng neu bwysau ariannol difrifol;
 - mwy o grantiau heb brawf modd a threialu taliad Incwm Sylfaenol Cyffredinol;
 - ymgyrchoedd cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth er mwyn sicrhau bod gofalwyr yn gwybod pa fanteision a chymorth y gallant eu hawlio.
168. Mae unigolion sy'n byw gyda salwch terfynol yn aml yn dibynnu ar fudd-daliadau fel eu prif ffynhonnell incwm. Gan nad yw rheoli budd-daliadau lles wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru, cafwyd galwad iddi weithio gyda llywodraeth ganolog y DU a dadlau dros fynediad cyflymach a haws at gymorth ariannol i bobl â salwch terfynol.
169. Ymhlith yr ymatebion roedd galwadau hefyd i bob gofalwr gael "cyflog byw". Codwyd y cysylltiad rhwng cymorth ariannol fel ysgoloriaethau a bwrsariaethau a thaliadau lles, a all gael effaith negyddol ar sefyllfa ariannol myfyriwr â chyfrifoldebau gofalu. Roedd galwadau hefyd i adolygu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yng Nghymru er mwyn cefnogi gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn well.
170. Yn gyffredinol, roedd nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys cyrff y sector cyhoeddus, yn pwysu ar Lywodraeth Cymru i ystyried neu ddilyn camau Llywodraeth yr Alban, gan adolygu a chynyddu lwfansau gofalwyr, darparu taliadau atodol a grantiau unwaith ac am byth i ofalwyr yn ystod y pandemig, yn ogystal â darparu grantiau i ofalwyr ifanc 16-18 oed.

Cwestiwn 23. Ydych chi'n cytuno ag ychwanegu'r bedwaredd flaenoriaeth genedlaethol i ofalwyr yn seiliedig ar addysg a chyflogaeth?

171. O blith y 52 o ymatebion, roedd y mwyafrif yn cytuno ag ychwanegu'r bedwaredd flaenoriaeth genedlaethol newydd hon ar gyfer gofalwyr.

Cwestiwn 24. Ydych chi'n credu bod angen diwygio'r rhestr o flaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gofalwyr, a'r bedwaredd flaenoriaeth arfaethedig, ymhellach? Os felly, sut?

172. O blith y 37 o ymatebion, roedd mwyafrif yr ymatebion eisiau newid y tair blaenoriaeth genedlaethol bresennol i ofalwyr, y tu hwnt i ychwanegu'r bedwaredd flaenoriaeth arfaethedig.
173. Ystyriwyd bod dechrau a diwedd i daith y gofalwr felly cynigiwyd ychwanegu cyfeiriad at fywyd ar ôl gofalu oherwydd bod angen cymorth emosiynol, ymarferol ac wedi'i dargedu ar lawer o ofalwyr pan ddaw eu rôl ofalu i ben, ond hefyd pan fydd yn rhaid i rywun roi'r person y maent yn gofalu amdano mewn gofal preswyl neu ofal nyrsio. Disgrifiwyd hyn fel agwedd ar ofalu a amlygwyd fwyfwy yn ystod y pandemig cyfredol. Mae hyn wedi golygu bod llawer o ofalwyr yn ynysig ac yn unig.
174. Roedd rhai sefydliadau yn dymuno newid geiriad y tair blaenoriaeth genedlaethol i ganolbwyntio'n fwy ar yr agweddau emosiynol ac ymarferol a brofir gan lawer o ofalwyr. Rhoddodd eraill ragor o fanylion am y mathau o gamau yr hoffent eu gweld yn cael eu rhoi ar waith wrth fynd i'r afael â llawer o'r heriau a'r rhwystrau y gall gofalwyr eu hwynebu ac roeddent am i'r rhain gael eu cynnwys yng ngeiriad y blaenoriaethau.
175. Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru, yn dilyn y cynllun cenedlaethol ar gyfer gofalwyr, ddatblygu a chyhoeddi cynllun gweithredu penodol. Roedd hyn oherwydd bod llawer o'r camau i gefnogi cyflawni'r pedair blaenoriaeth genedlaethol wedi'u disgrifio fel rhai eithaf cyffredinol eu natur ac nad ydynt yn canolbwyntio ar ganlyniadau nac yn cynnwys unrhyw drefniadau monitro. Awgrymwyd cynllun gweithredu treigl newydd gyda cherrig milltir a manylion y camau gweithredu penodol sy'n gysylltiedig â phob blaenoriaeth, ynghyd â disgrifio trefniadau adrodd, fel ffordd o sicrhau bod y blaenoriaethau cenedlaethol yn cael eu cyflawni.
176. Nododd adborth gan sefydliadau a'r rhai sy'n gweithio gyda gofalwyr ifanc ac oedolion sy'n ofalwyr ifanc gytundeb â phob un o flaenoriaethau'r pedwar gofalwr, ond nodwyd y dylid cyflwyno gwell mesurau adrodd. Dylai'r rhain ddwyn llywodraeth leol a llywodraeth ganolog i gyfrif, pan na fydd mesurau'n cael eu cyflawni. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar rôl deiliaid swyddi gwleidyddol, a'r rhai sy'n dal swyddi arwain uwch a chanddynt ddyletswyddau a chyfrifoldebau corfforaethol, sydd â dyletswydd gofal tuag at fywydau gofalwyr ifanc.

Siarter i Ofalwyr

Cwestiwn 25. Ydych chi'n cytuno â'n bwriad i ddatblygu a chyhoeddi Siarter i Ofalwyr?

177. O blith y 68 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd mwyafrif yr ymatebion yn cytuno â'n cynnig i weithio gyda gofalwyr, rhanddeiliaid a phartneriaid i ddatblygu siarter genedlaethol. Er eu bod yn gefnogol i'r syniad yn gyffredinol, soniodd nifer o ymatebwyr am bryderon ynghylch ennyn diddordeb rhanddeiliaid yn y broses, cael sefydliadau i ymrwymo i'r egwyddorion mewn siarter, yr effaith ar ofalwyr eu hunain, a sut y byddai gweithredu'r siarter yn cael ei warantu.
178. Roedd yr adborth a gafodd yr ymatebwyr gan ofalwyr ac y cyfeiriwyd ato yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn dangos bod ymateb cymysg i hyn. Byddai angen datblygu unrhyw ddogfen o'r fath ar y cyd â gofalwyr, byddai angen iddi gael eu harwain gan ofalwyr a chanolbwyntio ar ofalwyr. Roedd canfyddiad hefyd bod risg y gallai siarter ddod yn ymarfer ticio blychau ac yna ei hanghofio ar ôl iddi gael ei chyhoeddi. Hefyd, dylai fod yn berthnasol i ofalwyr o bob oed, gan gynnwys gofalwyr ifanc, a dylid egluro beth yw statws y ddogfen. Roedd y cwestiynau a ofynnwyd yn cynnwys a fyddai gan y siarter a gynhyrchwyd unrhyw ddyddiadau adolygu neu linellau amser clir, a fyddai'n cynnwys safonau penodol, neu a fyddai'n sicrhau bod gofalwyr yn cymryd rhan fel partneriaid cyfartal a bod ganddynt lais mewn datblygu polisi, cynllunio, ymchwil a hyfforddiant.
179. Mae nifer fach o gyrff y trydydd sector eisiau gweld siarter yn cael ei chefnogi gyda chyllid i alluogi ei gweithredu, i ddarparu mecanweithiau ar gyfer ymdrin â chwynion a mesurau ar gyfer dwyn sefydliadau i gyfrif. Cododd ateb arall enghraifft o siarter gofalwyr yn yr Alban, gan ystyried bod siarter newydd yng Nghymru yn fodd o ymgorffori hawliau gofalwyr, gosod dyletswyddau ychwanegol ar awdurdodau lleol a helpu gofalwyr i hunanadnabod fel gofalwyr di-dâl a gwybod eu hawliau.
180. O ran yr ymatebion a oedd yn anghytuno â'r bwriad i lunio siarter, nid oeddent yn ystyried bod siarter yn gwneud unrhyw wahaniaeth ymarferol i ofalwyr na'r bobl y maent yn eu cefnogi, yn hytrach roeddent o'r farn y byddai craffu drwy adrodd ar berfformiad a herio awdurdodau lleol a byrddau iechyd i sicrhau bod hawliau gofalwyr o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael eu bodloni yn cael mwy o effaith. Dylai hyn ddod law yn llaw ag eglurhad o ganlyniadau perfformiad gwael a diffyg cydymffurfiaeth sefydliadau sy'n cyflawni gofynion Deddf 2014.

Cwestiwn 25. A ddylai'r siarter ddisgrifio disgwyliadau cenedlaethol o ran sefydliadau sy'n cefnogi gofalwyr?

181. O blith y 58 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif yn cytuno â'r datganiad. Cyfeiriwyd yn benodol at bwysigrwydd siarter newydd yn nodi'r gwasanaethau y dylai gofalwyr eu cael drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â safonau'r Gymraeg a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
182. Roedd sawl un o sefydliadau'r GIG yn cefnogi'r cynnig gan nodi eu bod, fel cynllunwyr gwasanaethau ac arweinwyr system, am weld symudiad tuag at ddiffinio rolau Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, gofalwyr a sefydliadau partner yn glir mewn ffordd sy'n gwneud i ofalwyr deimlo eu bod yn cael eu cefnogi i gynnal eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau gofalu.
183. Pwysleisiodd sylwadau gan gyrff y sector cyhoeddus bwysigrwydd sicrhau bod yr holl randdeiliaid allweddol yn ymrwymo i'r siarter, bod y siarter yn nodi'r hyn y gall gofalwyr

ei ddisgwyl gan wahanol asiantaethau, ar ffurf safonau a chanlyniadau, gyda safonau a chanlyniadau ar wahân wedi'u nodi ar gyfer gofalwyr ifanc. Fodd bynnag, roedd galwadau hefyd am sicrhau cydbwysedd rhwng gofynion a disgwyliadau cenedlaethol a lleol, oherwydd bod gan bob awdurdod lleol ac ardal bwrdd iechyd wahanol ddemograffeg, er enghraifft, addasu gwasanaethau i gefnogi gofalwyr mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig, neu fynd i'r afael ag anghenion gofalwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Byddai siarter gyffredinol sy'n rhoi trosolwg o'r hyn y gall gofalwyr ei ddisgwyl o ran gwasanaethau ym mhob rhanbarth yn cael ei ystyried yn gam ymlaen. Ni ddylai siarter fod mor ragnodol nes ei bod yn methu â chydabod yr angen am hyblygrwydd, yn hytrach dylai sicrhau bod pawb yn gweithio tuag at safonau cyffredin penodol.

184. Mae nifer o ymatebion yn ystyried y siarter yn gyfle i ddangos i ofalwyr eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu, a nodi'r math o gymorth y maent yn gymwys i'w gael, ac y dylent allu cael gafael arno.

Cwestiwn 27. Ydych chi'n meddwl y byddai Siarter yn helpu i wella'r gwasanaethau rydych chi'n eu darparu neu'n eu defnyddio?

185. O blith y 56 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd cymysgedd o atebion, gyda rhai'n nodi'n glir eu bod yn credu y byddai siarter yn gwneud gwahaniaeth, ond nid oedd eraill yn cytuno. Cymysg oedd y disgwyliadau o'r hyn y gallai'r siarter ei gyflawni o ran gwella'r gwasanaethau a ddarperir ond ystyriwyd bod y disgwyliad ymhlith gofalwyr a sefydliadau ym mhob sector yn bwysig iawn.
186. Drwyddynt draw, roedd yr ymatebion yn nodi'n glir bwysigrwydd sicrhau tegwch o ran cael cymorth a chefnogaeth a mynediad at wasanaethau, gan greu sefyllfa deg i bob gofalwyr, gan sicrhau bod ganddynt fynediad cyfartal a safonau cymorth waeth ble maent yn byw neu beth bynnag eu hanghenion oherwydd oedran, anabledd, neu ethnigrwydd. Nodwyd rôl i Lywodraeth Cymru o ran sicrhau ymrwymadau gan bob bwrdd iechyd lleol ac awdurdod lleol i wella gwasanaethau, ond hefyd i sicrhau bod gan y cyrff hyn y gallu a'r cyllid i gynnig y gwasanaethau angenrheidiol.

Cwestiwn 28. Ydych chi'n cytuno y gallai Siarter helpu i leihau amrywiad daearyddol ymddangosiadol mewn gwasanaethau i ofalwyr?

187. O blith y 59 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif yn cytuno y gallai'r Siarter helpu i leihau'r amrywiad daearyddol ymddangosiadol mewn gwasanaethau i ofalwyr. Unwaith eto, roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn amrywio o fod yn gefnogol iawn, i fod yn amheus a negyddol.
188. Un nodwedd allweddol mewn llawer o'r ymatebion oedd eu bod yn nodi'r gwahaniaethau sydd eisoes yn bodoli o ran darparu gwasanaethau nid yn unig rhwng awdurdodau lleol, ond ymysg llawer o ddarparwyr eraill gan gynnwys byrddau iechyd. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn cynnig gwahanol wasanaethau yn unol â chanfyddiadau eu cynlluniau poblogaeth a llesiant ond mynegwyd y farn y gallai siarter helpu i roi ffocws i'r broses gynllunio yn y dyfodol. Mae'r broses gynllunio hon yn ofynnol gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
189. Ystyriwyd bod defnyddio siarter i hyrwyddo cydweithio yn bwysig. Gallai dogfen o'r fath osgoi dyblygu a sicrhau y gellid defnyddio adnoddau ar y cyd yn fwy effeithiol. Gallai ymdrechion ar y cyd i nodi anghydraddoldebau penodol sy'n wynebu gwahanol grwpiau o ofalwyr, neu o fewn ardaloedd daearyddol, arwain at leihau'r rhain dros

amser drwy gamau gweithredu wedi'u targedu, ac ailddosbarthu adnoddau (pobl, gwasanaethau ac arian) yn ôl yr angen. Nodwyd cyfuno cyllid fel un enghraifft, ond hefyd y syniad o gytundeb ar y cyd fel y gallai arian a ddarparwyd eisoes i un elusen neu sefydliad gael ei ailddyrannu pe bai mwy o angen mewn maes gwahanol. Yn y modd hwn byddai cyllid yn symud mewn modd wedi'i dargedu i ddiwallu anghenion y boblogaeth o ofalwyr.

190. Gwelwyd siarter fel ffordd o nodi amrywiadau mewn cymorth a gwasanaethau i ofalwyr ledled Cymru. Dylai hefyd fod yn weledigaeth o arfer gorau i sicrhau nad yw darparwyr gwasanaethau yn anelu at ddim ond cyflawni'r safonau lleiaf posibl. Dylai hefyd fod mwy o gysondeb rhwng sefydliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o ran y weledigaeth, y model a'r gwasanaeth a ddarperir.
191. Disgrifiodd un awdurdod lleol sut yr oedd wedi lansio Siarter Gofalwyr yn ddiweddar ac wedi gweld manteision o ran annog sefydliadau i fabwysiadu arferion cyfeillgar i ofalwyr, a chyda statws siarter, sefydliadau yn dangos eu hymrwymiad i gefnogi gofalwyr yn eu busnesau ac mewn ysgolion, colegau a chymunedau.

Mesur llwyddiant: data ac ymchwil

Cwestiwn 29. Sut arall y gallwn ni weithio gyda phartneriaid i fesur llwyddiant y cynllun cenedlaethol ar gyfer gofalwyr di-dâl?

192. Cafwyd 50 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Yn yr un modd ag unrhyw gynnig i fesur llwyddiant, codwyd dwy agwedd, sef ffynhonnell yr wybodaeth a'r data a natur y data h.y, ansoddol a meintiol. Pwysleisiodd mwyafrif yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn bwysigrwydd cael gwybodaeth ansoddol gan ofalwyr di-dâl. Soniodd sawl un am ddefnyddio arolygon blynyddol a gofyn i ofalwyr asesu eu canlyniadau ac a oeddent yn teimlo bod eu sefyllfa eu hunain wedi gwella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
193. Rhybuddiwyd ynghylch gorddibynu ar un ffynhonnell benodol o wybodaeth a data. Soniwyd am ystod eang o ffynonellau mewn gwahanol sectorau, gan gynnwys y trydydd sector, gyda gwiriadau addas ar ansawdd a chywirdeb. I gefnogi hyn, dylai fod terminoleg gyffredin ymhlith casglwyr a defnyddwyr yr wybodaeth a'r data, gan gynnwys llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol, yn ogystal â chyrrff cyhoeddus eraill a'r trydydd sector. Argymhellodd nifer fach o gyrff y trydydd sector y dylai Llywodraeth Cymru greu cyfres o offer mesur safonedig, er enghraifft, y dull a ddefnyddir yn y Fframwaith Asesu Cyffredin ar gyfer Diogelu.
194. Ochr yn ochr â defnyddio mesurau a dangosyddion perfformiad, pwysleisiodd sawl ymatebydd y defnydd o astudiaethau gwerthuso, gan gynnwys gwerthusiad o'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofalwyr. Ni ddylai'r rhain fod yn werthusiadau newydd bob tro fodd bynnag, pe gallai prosiectau gwerthuso presennol nodi bylchau mewn gwybodaeth a chael eu haddasu.
195. Gofynnwyd pwy fyddai'n atebol am fesur llwyddiant y cynllun cenedlaethol, gydag ymatebwyr yn aml yn awgrymu Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr fel mecanwaith ar gyfer adolygu cynnydd. Gwelwyd bod y grŵp hwn yn chwarae rhan allweddol wrth fonitro llwyddiant y cynllun cenedlaethol newydd, gan adolygu adroddiadau yn rheolaidd. Galwyd hefyd ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun gweithredu pwrpasol ar gyfer gofalwyr erbyn diwedd 2021.
196. Codwyd y defnydd o'r systemau TG presennol, a chafwyd galwadau i unrhyw ddatblygiadau newydd ar gyfer systemau gwybodaeth reoli ddarparu data, a fyddai'n helpu staff gofal cymdeithasol awdurdodau lleol i gynnal asesiadau o anghenion gofalwyr yn amserol ac yn effeithiol. Ymhlith yr awgrymiadau eraill ynghylch yr hyn y

dylid ei fesur fel mater o drefn roedd: lefel y buddsoddiad mewn gwasanaethau gofalwyr arbenigol, nifer y gofalwyr sy'n cael lwfans gofalwyr, faint o ofalwyr ifanc sy'n cael eu cefnogi a sut (drwy wasanaethau a gomisiynir yn statudol ac yn uniongyrchol drwy'r trydydd sector), ynghyd â nifer y gofalwyr sy'n gallu manteisio ar ofal seibiant.

197. Roedd deall a mesur sut yr oedd gwasanaethau'n cael eu darparu yn y Gymraeg yn agwedd bwysig a nodwyd yn yr atebion i'r cwestiwn hwn. Cafwyd sylwadau penodol yn tynnu sylw at y ffaith bod y Fframwaith Perfformiad a Gwella cyfredol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys mesuriadau i gofnodi tystiolaeth bod "cynnig rhagweithiol" y Gymraeg wedi'i wneud i ofalwyr a'r rhai a chanddynt anghenion gofal a chymorth, wrth gynnal asesiadau, a'i fod wedi'i dderbyn. Fodd bynnag, dim ond os yw'r darparwr yn gallu siarad Cymraeg y gellir darparu cynnig gweithredol.
198. Argymhellwyd y dylai asesiadau o anghenion y boblogaeth yn y dyfodol archwilio faint o awdurdodau lleol sydd â gwybodaeth am yr angen a'r galw am ddarpariaeth Gymraeg. Awgrymwyd hefyd bod y Fframwaith Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol cyfredol yn cynnwys mesurau manylach i nodi pa wasanaethau sydd ar gael, ar ôl i ddewis iaith unigolyn gael ei nodi. Dylai data manylach hefyd ymchwilio i ba raddau y mae anghenion siaradwyr Cymraeg wedi'u diwallu, pan fyddant mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol.

Cwestiwn 30 - Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofalwyr di-dâl yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

199. Cafwyd 41 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Yn gyffredinol, barn yr ymatebwyr oedd bod Cymru'n genedl ddwyieithog a bod angen i bobl allu cyfathrebu yn yr iaith o'u dewis ac y dylent allu gwneud hynny, felly mae'r cynllun cenedlaethol newydd ar gyfer gofalwyr yn rhoi cyfle i adlewyrchu'r agweddau cymdeithasol, diwylliannol, iechyd a chyfreithiol pwysig hyn. Cafwyd awgrym hefyd y dylid addasu geiriad blaenoriaeth un i adlewyrchu'r angen i gefnogi gofalwyr sy'n siarad Cymraeg.
200. Codwyd darparu gwasanaethau yn newis iaith gofalwr fel mater a oedd yn gysylltiedig â darparu gwybodaeth a gwasanaethau a mynediad atynt. Soniwyd y gall pobl ifanc gael anawsterau'n cyfleu eu meddyliau a'u hemosiynau os nad ydynt yn defnyddio eu dewis iaith. Hefyd, ystyriwyd bod darparu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig iawn lle mae dementia ar yr unigolyn sy'n derbyn gofal. Rhaid cynllunio gwasanaethau i ddiwallu anghenion yr unigolyn, ac er mwyn iddynt allu cael triniaeth a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.
201. Pwysleisiodd nifer o ymatebion y "cynnig rhagweithiol", er mwyn sicrhau y gall siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith pan fyddant mewn cysylltiad ag ystod eang o wasanaethau a darparwyr. Fodd bynnag, awgrymwyd hefyd bod angen i fwy o bobl a gweithwyr ddeall y "cynnig rhagweithiol" a pham mae mor bwysig. Dylid ei hyrwyddo ym mhob lleoliad, gan roi'r dewis i'r gofalwr a'r unigolyn ag anghenion gofal a chymorth. Mae posibilrwydd y gellid sicrhau mwy o fanteision i ofalwyr drwy'r trydydd sector, yn ogystal â'r sector cyhoeddus, gan sicrhau y darperir gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau yn y ddwy iaith.
202. Roedd yr angen i gydymffurfio â deddfwriaeth yn nodwedd allweddol mewn nifer o ymatebion. Rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu

gwasanaethau i'r cyhoedd. Fodd bynnag, cydnabu rhai o'r sylwadau bod angen mwy o help a chymorth i alluogi sefydliadau i recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, yn ogystal â hyfforddi mwy o weithwyr i siarad Cymraeg. Gwelwyd bod costau gwasanaethau cyfieithu yn rhwystr i sefydliadau llai.

203. I lawer, gellid defnyddio'r cynllun i hyrwyddo buddsoddi mewn gwasanaethau, pwysigrwydd polisïau iaith y gweithlu, ac i recriwtio mwy o staff sy'n siarad Cymraeg a fyddai'n gwella gwasanaethau a gallu unigolion i gael dewis o ran iaith a chymorth, gofal a chefnogaeth yn eu dewis iaith.

Cwestiwn 31 - Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl gael ei llunio neu ei haddasu er mwyn cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

204. Cafwyd 25 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac roedd llawer ohonynt yn ailadrodd yr wybodaeth a roddwyd mewn ymatebion i gwestiwn 30. Fodd bynnag, roedd sylwadau ychwanegol yn awgrymu bod angen i weithwyr proffesiynol ddeall yn well sut y gallant gyflawni canlyniadau mwy effeithiol i unigolion a gwasanaethau, mewn perthynas ag iaith. Dylid nodi dewis iaith y gofalwr a'r sawl sy'n derbyn gofal fel mater o drefn, gyda gofalwyr a'r rhai y maent yn gofalu amdanynt yn cael y dewis i gael gwybodaeth, ar lafar neu'n ysgrifenedig, yn eu dewis iaith.

205. Bydd yr argymhellion ar gyfer newid polisi gofalwyr strategol i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gan gynnwys er enghraifft:

- Rhoi arweiniad a chymorth mewn perthynas â gwasanaethau Cymraeg i awdurdodau lleol a darparwyr eraill er mwyn gweithredu blaenoriaethau gofalwyr cenedlaethol yn llawn;
- ystyried yr hyn y gall Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid ei wneud i gefnogi darparu gwasanaethau Cymraeg i ofalwyr, e.e. gwybodaeth am fylchau mewn sgiliau ieithyddol ymarferwyr er mwyn cyfrannu at weithredu Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol;
- canllawiau ar gyfer pob blaenoriaeth genedlaethol ynghylch y disgwyliadau ar ddarparwyr i'w cyflawni yn unol â safonau'r Gymraeg a gofynion Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

206. Codwyd rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o gofio'r gofyniad iddynt gynnal asesiadau o anghenion y boblogaeth i asesu ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen er mwyn diwallu anghenion gofal a chymorth unigolion, a gofalwyr, yn yr ardaloedd awdurdod lleol perthnasol. Dylid ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg yn ofalus yn yr asesiadau hyn, gan gynnwys anghenion gofalwyr sy'n siarad Cymraeg. Hefyd, dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a darparwyr eraill i ddeall sut y byddant yn diwallu anghenion gofal a chymorth gofalwyr sy'n siarad Cymraeg. Lle bynnag y bo gofalwr yn byw yng Nghymru dylai'r gofynion i gynnig a darparu gwasanaethau Cymraeg fod yr un fath.

Y camau nesaf

Bydd y cynllun cenedlaethol terfynol ar gyfer gofalwyr yn cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi, a bydd cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu yn y dyfodol mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a gofalwyr, yn ystod 2021.

Atodiad 1: Rhestr o'r ymatebwyr

Rhestr o'r ymatebwyr
Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol Torfaen
Age Cymru
Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro - Gwasanaeth Nyrsys Ysgol
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg
Canolfan Gyfreithiol Plant Cymru
Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Comisiynydd y Gymraeg
Contact Cymru
Cyngor Sir Casnewydd + Barnardo's (ymateb ar y cyd)
Cyngor Sir Ceredigion
Cymdeithas Alzheimer's Cymru a TIDE (ymateb ar y cyd)
Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor
Cymdeithas Cludiant Cymunedol (Cymru)
Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain
Fforwm Rhieni a Gofalwyr Pobl ag Anableddau Dysgu Cymru
Fforwm Rhieni-Ofalwyr Abertawe
Gofal Cymdeithasol Cymru
Gogledd Cymru - Awdurdodau Lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a Phartneriaid y Trydydd Sector (ymateb ar y cyd)
Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru
Grŵp Dementia Dydd Mercher
Grŵp Gweithredol Cyfarwyddwyr Cynllunio Cymru Gyfan ar gyfer Sefydliadau GIG Cymru
Grŵp Llywio Gofalwyr Cwm Taf Morgannwg

Rhestr o'r ymatebwyr
Grŵp Strategaeth Gofalwyr Ifanc a Gofalwyr Sir Fynwy
Gwasanaethau Cymdeithasol Caerdydd a Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg (ymateb ar y cyd)
Gyrfa Cymru
Hafal
Hourglass Cymru
J Ashley
J Killick
K Wyke
L Jones
M Clarke
M Evans
Marie Curie
MENCAP Cymru
Ombwdsmon Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Oxfam Cymru
P Stephens
Plant yng Nghymru
Prifysgol Agored Cymru
R Roberts
Rhwydwaith Dysgu a Gwella Swyddogion Gofalwyr
S Barr
S Hurrell
Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
Y Gymdeithas Strôc
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
Ymddiriedolaeth Gofalwyr De-ddwyrain Cymru